# Magwyr gyda Gwndy

## Cynllun Creu Lleoedd

Hydref 2025



monmouthshire sir fynwy

Magor with Undy Town Council

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Paratowyd y ddogfen hon ar ran:

Cyngor Tref Magwyr gyda Gwndy
Cyngor Sir Fynwy

Magor with Undy Town Council

monmouthshire
sir fynwy

Paratowyd y ddogfen hon gan:


Chris Jones
Regeneration

15 Stryd Nevill
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5AA

chris@chrisjones.studio
T: 01873 880666
M: 07968943084

Roberts Limbrick
Architects

1 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG

mail@robertslimbrick.com

0333 405 500


chris jones

Roberts Limbrick


Rhif Prosiect: 11372

Cyhoeddwyd: 11.12.25

Fersiwn: V7



**Hawlfraint**
Cafodd yr holl gynlluniau eu hatgynhyrchu o'r Map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi. Cedwir hawlfraint y Goron.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

Beth yw Creu Lleoedd . . . . . 2
Strwythur y Cynllun . . . . . 4

**Deall Magwyr gyda Gwndy Heddiw**

Deall Magwyr gyda Gwndy Heddiw . . . . . 8
Lle mae Magwyr gyda Gwndy? . . . . . 9
Hanes Magwyr gyda Gwndy . . . . . 10
Gweithgareddau, Cynlluniau a Phrosiectau Cyfreddol 12
Cyd-destun Polisi . . . . . 14
Newid Hinsawdd a Fframwaith Cynaliadwyedd . . . . . 16
Ffeithiau a Ffigurau Allweddol . . . . . 17
Dadansoddiad o Ganol y Pentref . . . . . 19
Canol y Pentref. . . . . 20

**Dadansoddiad o'r Lle**

Dadansoddiad o'r Lle . . . . . 25
Heriau a Chyfleoedd Ehangach . . . . . 27
Heriau a Chyfloedd Canol y Dref . . . . . 28
Dadansoddiad SWOT . . . . . 29
Fframwaith Cyfleoedd Magwyr gyda Gwndy. . . . . 40
Yr hyn a Ddywedodd Rhanddeiliaid . . . . . 41

**Eich Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Magwyr gyda Gwnd**

Eich Gweledigaeth . . . . . 45
Eich Nodau Gweithredu . . . . . 46
Eich Nodau Ategol . . . . . 48

**Eich Cynllun ar gyfer Magwyr gyda Gwndy**

Eich Cynllun ar gyfer Magwyr gyda Gwndy . . . . . 52
Fframwaith Blaenoriaethu . . . . . 55
Prosiectau Strategol a Galluogi . . . . . 56
Prosiectau Gweithredol a Rhaglenni . . . . . 57
Prosiectau Seilwaith Cyfalaf . . . . . 59
Prosiectau Lleoedd Arfaethedig . . . . . 62
Pyrth . . . . . 63
Porth y B4245 i Ganol y Pentref . . . . . 64
Canol y Pentref . . . . . 68
Sgwâr Magwyr . . . . . 71
Denu'r Gymuned i Ganol y Pentref . . . . . 75
Cysylltu Asedau'r Gymuned . . . . . 76
Magwyr gyda Gwndy yng Ngwastadeddau Gwent . . . . . 77
Gwerthfawrogi Canol y Pentref . . . . . 79


**Rhagweld Llwyddiant i Ganol ein Tref**

Diffinio Llwyddiant . . . . . 82

**Dull Cyflawni**

Ffyrdd o Weithio . . . . . 87

# Cyflwyniad



# Beth yw Creu Lleoedd

Mae creu lleoedd yn ymwneud â chreu lleoedd y mae pobl eisiau byw, gweithio, ymweld â nhw a threulio amser ynddynt. Mae'n ffordd o feddwl sy'n rhoi pobl wrth wraidd penderfyniadau cynllunio, gan sicrhau bod datblygiadau a gwelliannau newydd i ardaloedd presennol yn helpu cymunedau i ffynnu.

Yn hytrach nag edrych ar adeiladau neu strydoedd unigol fel elfennau ar wahân, mae creu lleoedd yn cymryd golwg ehangach. Mae'n ystyried sut mae gwahanol rannau o le penodol yn gweithio gyda'i gilydd - y siopau, cartrefi, parciau, cysylltiadau trafnidiaeth a chyfleusterau cymunedol - a sut y gallant wasanaethu'r bobl sy'n eu defnyddio bob dydd yn well.

Mae creu lleoedd da yn creu ardaloedd gyda'u cymeriad a'u hunaniaeth unigryw eu hunain, y mae pobl yn falch ohonynt a lle maen nhw'n teimlo ymdeimlad o berthyn a balchder. Mae'n canolbwyntio ar greu lleoedd sy'n ddeniadol, hygyrch, diogel a bywiog - ac sy'n cefnogi iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl.

## Pam fod Magwyr gyda Gwndy angen Cynllun Creu Lleoedd

Dros y blynyddoedd, mae llawer o leoedd wedi colli eu cymeriad unigryw gan fod datblygiad wedi digwydd yn dameidiog fesul tipyn, heb ystyried y darlun ehangach. Mae hyn wedi arwain at deimlad o 'nunlle' - ardaloedd a allai fod yn unrhyw le, ac nad oes ganddynt y rhinweddau arbennig sy'n gwneud i bobl ofalu amdanynt.

Mae lleoliad Magwyr gyda Gwndy yn golygu cyfleoedd a heriau. Mae ei agosrwydd at yr M4 a'r M48 yn rhoi cysylltedd da iddo a dewis i'w drigolion. Er bod y pentref wedi tyfu i boblogaeth tref, mae ganddo ganol amlwg a lleol o hyd, a dyma lle mae'r cynllun creu lleoedd, a'r buddsoddiad yn y dyfodol, yn canolbwyntio arno.

Mae cynllun creu lleoedd yn helpu i ganolbwyntio ar gydlynu ymdrechion gwahanol sefydliadau a ffrydiau ariannu. Yn hytrach na mynd i'r afael â phroblemau un ar y tro, mae'n paratoi gweledigaeth ar y cyd y gall pawb weithio tuag ati. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd gwelliannau yn ategu ei gilydd ac yn creu newid cadarnhaol parhaol.

## Diben a Chwmpas y Cynllun hwn

Mae'r cynllun creu lleoedd hwn yn cyflwyno gweledigaeth a fframwaith ar gyfer gwella canol y pentref a'r ardal gyfagos dros y blynyddoedd nesaf. Er mai ar y pentref, o gwmpas y Sgwâr a Ffordd Casnewydd, y canolbwyntir, mae'r cynllun yn edrych hefyd ar y cymdogaethau cyfagos, parciau gerllaw, adeilad y ganolfan gymunedol a safle'r orsaf drenau arfaethedig. Mae hefyd yn edrych ar sut y gall fanteisio i'r eithaf ar leoliad Magwyr gyda Gwndy o fewn Gwastadeddau Gwent a'i dreftadaeth leol.

**Nod y cynllun yw:**

- Creu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer dyfodol Magwyr gyda Gwndy sy'n adlewyrchu'r hyn y mae pobl leol ac mae busnesau eisiau ei weld
- Canfod y cyfleoedd a'r heriau allweddol sy'n wynebu canol y dref
- Nodi prosiectau ymarferol a gwelliannau y gellir eu cyflawni dros amser
- Rhoi tystiolaeth i helpu i sicrhau cyllid o wahanol ffynonellau
- Arwain y broses o wneud penderfyniadau gan gynghorau, busnesau a grwpiau cymunedol.



Bydd y cynllun yn helpu i ddangos blaenoriaethau lleol i sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol, gan ei gwneud hi'n haws cael mynediad at gyllid grant a chydgyfeirio gwahanol wasanaethau a buddsoddiadau.

# Beth yw Creu Lleoedd

## Yr hyn y gall, ac na all, y Cynllun hwn ei wneud

Trwy ymgynghori helaeth â thrigolion, busnesau a grwpiau lleol, gwyddom fod yna lawer o bethau yr hoffech chi am eu gweld yn cael eu gwella ym Magwyr gyda Gwndy. Gall y cynllun hwn fynd i'r afael yn uniongyrchol â rhai o'r materion hyn, tra bod eraill yn gofyn am wahanol sefydliadau i weithredu.

**Yr hyn y bydd y cynllun hwn yn ei gyflawni:**



- Gwelliannau i strydoedd a mannau cyhoeddus canol y pentref
- Cymorth i ddod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd
- Cysylltiadau rhwng trafnidiaeth gyhoeddus yng nghanol y dref a theithio llesol
- Cynnal a rheoli asedau lleol allweddol
- Cysylltiadau cryfach gyda chymdogaethau cyfagos
- Gwell cysylltiadau gyda Gwastadeddau Gwent
- Gwell arwyddion a gwybodaeth ledled canol y pentref
- Adeiladu ar y rhaglen o ddigwyddiadau a gwyliau
- Cefnogaeth i fusnesau lleol.

Mae'r rhain yn feysydd lle gall y cyngor tref, y cyngor sir a phartneriaid lleol wneud cynnydd uniongyrchol.

**Yr hyn sy'n gofyn am weithredu ehangach:** Bydd angen i'r cyngor sir a sefydliadau eraill arwain ar lawer o'r materion a godwyd wrth baratoi'r cynllun hwn, a deall sut maent yn ymwneud â'r profiad o ganol y dref:

**Tai:** Cynllunio ar gyfer twf cynaliadwy drwy'r cynllun datblygu lleol sydd ar y gweill, gyda safleoedd tai arfaethedig i integreiddio â'r dref, gyda seilwaith ychwanegol i ddiwallu'r cynnydd mewn angen.

**Cyflogaeth:** Galluogi cyfleoedd cyflogaeth o fewn safleoedd mwy ac iddynt bwysigrwydd strategol a chysylltedd rhanbarthol ehangach.

**Trafnidiaeth:** Mae gwell gwasanaethau bysiau a chysylltiadau trafnidiaeth rhanbarthol yn gofyn am weithredu gan weithredwyr bysiau a Llywodraeth Cymru.

**Yr Amgylchedd:** Mynd i'r afael â newid hinsawdd a heriau amgylcheddol megis ansawdd yr afon a'i werth amwynderol ehangach.

**Gwasanaethau i Bobl Ifanc:** Y tu hwnt i gyfleusterau canol trefi, gall ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a darparwyr addysg bellach gydlynu i wella gwasanaethau i bobl ifanc.

**Sut mae'r cynllun hwn yn helpu gyda'r materion ehangach hyn:** Hyd yn oed lle na allwn ddatrys problemau'n uniongyrchol, mae'r Cynllun hwn yn:

- Dangos i sefydliadau eraill yr hyn sydd bwysicaf i bobl leol
- Rhoi tystiolaeth wrth wneud cais am raglenni cyllido mwy
- Gosod sail ar gyfer partneriaethau â chyrff rhanbarthol a chenedlaethol
- Amlygu Magwyr gyda Gwndy ar gyfer cyfleoedd buddsoddi ehangach.

Nid yw'r cynllun creu lleoedd hwn yn ateb i bob her sy'n wynebu Magwyr gyda Gwndy, ond mae'n cynnig man cychwyn clir ar gyfer gweithredu cydgysylltiedig a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ganol y dref a'r gymuned ehangach y mae'n ei gwasanaethu.

# Strwythur y Cynllun hwn

Mae gweddill y Cynllun Creu Lleoedd hwn wedi ei drefnu'n dair prif adran:

## Adran 2 Deall Magwyr gyda Gwndy heddiw

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'n dadansoddiad o ganol y pentref, ar sail nifer o ffynonellau gwybodaeth gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a'r gymuned ehangach. Mae'n archwilio'r hyn sy'n gwneud Magwyr gyda Gwndy yn arbennig, yr heriau y mae'n eu hwynebu, a'r cyfleoedd sydd ar gael i adeiladu ar ei gryfderau.

## Adran 3 Eich Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Magwyr gyda Gwndy

Mae'r adran hon yn nodi ein gweledigaeth a'n amcanion ar gyfer dyfodol canol y pentref. Datblygwyd y weledigaeth trwy ymgynghori helaeth â thrigolion, busnesau a sefydliadau lleol er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r hyn mae'r gymuned eisiau'i weld ar gyfer eu pentref.

## Adran 4 Gwneud Iddo Ddigwydd

Mae'r adran hon yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i wireddu'r weledigaeth, gan gynnwys y strategaeth gyffredinol, gwybodaeth am nifer o brosiectau a flaenoriaethir, ac arweiniad ar sut y dylent gael eu cyflawni. Mae'n rhoi map trywydd ymarferol ar gyfer troi'r weledigaeth yn ffaith dros y blynyddoedd nesaf.

# Sut y Cafodd y Cynllun hwn ei Gynhyrchu

## Cyfraniad Rhanddeiliaid a'r Gymuned

Datblygwyd Cynllun Creu Lleoedd Magwyr gyda Gwndy trwy gyd-drafod helaeth â rhanddeiliaid a chymunedau, gyda phob cam yn dylanwadu'n uniongyrchol ar agweddau allweddol o'r cynllun terfynol.

Rhoddodd grŵp llywio pwrpasol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Tref Magwyr gyda Gwndy arweiniad strategol drwy gydol y prosiect. Yn bwysicaf oll, cynhaliodd y grŵp llywio ymarfer blaenoriaethu gan ddefnyddio gwybodaeth a oedd yn cynnwys adborth o ymgynghoriad cyhoeddus i bennu'r prosiectau â blaenoriaeth a sicrhau y byddai adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar fentrau a gefnogir gan y gymuned.

Roedd gweithdai rhanddeiliaid yn gonglfaen i'r dull ymgynghori, gyda phob gweithdy â diben penodol yn natblygiad y cynllun. Casglodd y gweithdy cyntaf, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2024, wybodaeth leol amhrisiadwy a ddylanwadodd yn uniongyrchol ar ddatblygiad y weledigaeth am ddyfodol Magwyr gyda Gwndy. Nododd y cyfranogwyr yr hyn yr oeddent yn ei wirioneddol hoffi am ganol y pentref dan ddychmygu ei ddyfodol trwy drafodaethau strwythuredig, gyda'u cyfraniad yn gosod sail ar gyfer y weledigaeth derfynol uchelgeisiol. Casglodd yr ail weithdy, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2025, adborth ar y cynigion drafft, gydag arbenigedd rhanddeiliaid yn llywio a mireinio'r prosiectau arfaethedig cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.

Roedd teithiau cerdded rhyngweithiol o amgylch canol y pentref ac ar y B4245 gyda rhanddeiliaid yn rhoi dealltwriaeth ar lawr gwlad o broblemau a chyfleoedd penodol, gan ddod â'r dadansoddiad desg yn fyw. Roedd y sesiynau hyn yn amlygu perthynas canol y pentref â'r B4245, y brif ffordd drwy'r gymuned, sut mae mannau ac adeiladau amwynderol gerllaw yn cyfrannu at fywyd bob dydd, yn ogystal â rôl a swyddogaeth y Sgwâr.

Roedd cyfarfodydd wedi'u targedu gyda grwpiau penodol yn sicrhau bod safbwyntiau amrywiol, a oedd yn cynnwys busnesau a grwpiau buddiannau lleol, yn cael eu canfod. Rhoddodd sesiynau gyda phobl ifanc ddealltwriaeth o sut mae pobl ifanc yn profi canol y pentref, gan arwain prosiectau ac iddynt y nod o annog mwy o gyd-drafod â'r grŵp oedran hwn.



Roedd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2025 yn cynnig ffyrdd gwahanol i'r gymuned gymryd rhan. Denodd sesiynau galw heibio personol yn y Capel Bedyddwyr a Chanolfan Magwyr gyda Gwndy 255 o bobl dros ddau ddiwrnod, gyda phresenoldeb brig yn ystod amseroedd cinio. Rhoddodd arddangosfa yn Hen Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir gyfleoedd ychwanegol i gael adborth.

Roedd ymgynghori digidol drwy blatfform Siarad am Sir Fynwy yn ymestyn cyrhaeddiad yn sylweddol, gyda 1,298 o ymwelwyr â thudalen y prosiect a 281 o lawrlwythiadau o'r ddogfen gynigion. Rhwng pawb, cwblhaodd cyfanswm o 179 o bobl yr arolwg adborth naill ai ar-lein neu ar bapur. Ychwanegodd gohebiaeth bellach gan grwpiau a thrigolion lleol at yr adborth a ddefnyddiwyd fireinio syniadau, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â blaenoriaethau a phryderon cymunedol. Roedd hefyd yn helpu i arwain y weledigaeth, gan gadarnhau cefnogaeth y gymuned i'w chyfeiriad ac yn hollbwysig, dangosodd y ffordd ar gyfer blaenoriaethu prosiectau ochr yn ochr â thrafodaethau'r grŵp llywio.

Mae canfyddiadau llawn y cam ymgynghori cyhoeddus yn cael eu dadansoddi mewn dogfen ar wahân, **Adroddiad Ymgynghori Magwyr gyda Gwndy,** y gallwch ei gael drwy e-bostio **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**

# Deall Magwyr gyda Gwndy Heddiw

# Deall Magwyr gyda Gwndy Heddiw

Er mwyn creu cynllun llwyddiannus ar gyfer dyfodol Magwyr gyda Gwndy, mae angen i ni ddeall y dref fel y mae heddiw. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'n dadansoddiad manwl o ganol y pentref, sy'n seiliedig ar ymchwil helaeth, dadansoddi data, ac - yn bwysicaf oll - sgyrsiau gyda'r bobl sy'n adnabod y dref orau: ei thrigolion, perchnogion busnes, ymwelwyr, a grwpiau cymunedol.

Rydym yn archwilio'r hyn sy'n gwneud Magwyr gyda Gwndy yn unigryw ac yn arbennig, o ran ei leoliad ar Wastadeddau Gwent, ei agosrwydd at rwydwaith ffyrdd strategol yr M4 a'r M48 a'i gysylltiad â phentrefi eraill cyfagos Glannau Hafren.  Rydym hefyd yn edrych ar yr heriau sy'n wynebu canol y pentref, gan gynnwys cyrraedd a chyhoeddi, parcio a chanfod y ffordd, rôl a swyddogaeth y Sgwâr, gwneud i'r pentref weithio i bobl o bob cenhedlaeth (yn enwedig pobl ifanc), dod â'i asedau treftadaeth ynghyd ac adeiladu ar ei gymeriad a'i brofiad annibynnol.

Trwy ddeall cryfderau Magwyr gyda Gwndy a'r heriau y mae'n eu hwynebu, gallwn ganfod y cyfleoedd gwirioneddol sydd ar gael i adeiladu dyfodol gwell i ganol y dref a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

Mae manylion llawn ein dadansoddiad wedi'u nodi mewn dogfen ar wahân, **Adroddiad Llinell Sylfaen Magwyr gyda Gwndy**, y gallwch ei gael drwy e-bostio: **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**




# Lle mae Magwyr gyda Gwndy

Tref fach yw Magwyr gyda Gwndy, gyda chanol pentref, wedi'i lleoli ym mhen deheuol Sir Fynwy, 9 milltir i'r dwyrain o Gasnewydd a 9 milltir i'r gorllewin o Gas-gwent. Mae'n gorwedd ychydig i'r gogledd o Wastadeddau Gwent, yn ffinio ag Aber Afon Hafren. Mae'n lle sy'n cynnal craidd hanesyddol a llawn cymeriad, gydag amrywiaeth o adeiladau ac asedau rhestredig a hanesyddol.

Mae traffordd yr M4 yn rhedeg i'r gogledd o'r gymuned ac mae'n cynnig mynediad ardderchog i ganolfannau cyfagos Caerdydd, Casnewydd a Bryste.

Mae gan Fagwyr ganol "pentref" gydag amrywiaeth o dafarndai, siopau, meddygfa feddyg teulu a swyddfa bost i helpu i ddiwallu anghenion o ddydd i ddydd trigolion lleol. Mae canol tref Cil-y-coed 10 munud mewn car i'r dwyrain o'r dref ac mae'n darparu amrywiaeth ehangach o gyfleusterau ac archfarchnadoedd mwy.



# Hanes Magwyr gyda Gwndy

Mae Magwyr gyda Gwndy wedi'i leoli ar sbardun calchfaen yn y gwastadedd morol ffrwythlon i'r de o Goed Gwent, sydd â hanes hir o anheddu Celtaidd, Rhufeinig a Normanaidd.

Credir bod yr enw Cymraeg Magwyr yn tarddu o'r Lladin maceria, sy'n golygu waliau o feini  neu adfeilion. (O'r enw Cymraeg hwn y daeth y ffurf Saesneg Magor yn ddiweddarach.) Gall yr enw fod yn ymwneud naill ai â fila Rhufeinig sydd bellach ar goll yn yr ardal, neu fel arall at amddiffynfeydd rhag y môr neu sarn a adeiladwyd gan y Rhufeiniaid. Mae Magwyr a'r ardal gyfagos yn cynnwys llawer o adfeilion ac arteffactau Rhufeinig, ac roedd canol y dref wedi'i leoli yn wreiddiol ar ymyl mewnol morfeydd heli y dechreuodd y Rhufeiniaid eu hadennill fel tir amaethyddol. Mae'n bosibl bod yr enw lleol "Whitewall" yn ymwneud â'r un sarn, a fyddai wedi cysylltu'r dref â harbwr bychan sydd bellach wedi diflannu ar Aber Afon Hafren o'r enw Abergwaitha neu Aberweytha.

Sefydlwyd Eglwys y Santes Fair, y Forwyn, a elwir yn lleol yn 'Eglwys Gadeiriol y Rhostir' yn y 7fed ganrif gan Cadwaladr Fendigaid ac mae'n sefyll uwchben y gwastatir a'r ffordd i Aberwythel, porthladd Magwyr sydd wedi hen ddiflannu. Nid oes dim olion o'r eglwys gynnar ar ôl ac adeiladwyd yr adeilad presennol yn y 13eg ganrif a'r 15fed ganrif yn bennaf er bod rhywfaint o waith Romanésg cynnar yn dyddio o'r 12fed ganrif i'w weld yn wal ogleddol y gangell.

Yn 1238 rhoddwyd yr eglwys i Abad a Lleiandy Santa Maria di Gloria yn Anagni yng nghanolbarth yr Eidal a gorchmynnodd y Pab Gregory IX i'r Cynrychiolydd Pabaidd yn Lloegr sefydlu a gwaddoli ficerdy ym Magwyr ac i drosglwyddo'r eglwys a'i heiddo i Deodatus, mynach a Procurator Santa Maria di Gloria. Y Procurator oedd cynrychiolydd cyfreithiol y fynachlog yr oedd yr eglwys wedi'i rhoddi iddi ac roedd yn ddyletswydd arno i gasglu'r rhenti a'r dyledion eraill, gan gynnwys degwm a throsglwyddo'r elw i'r fynachlog. Roedd gan y Procurator rym sylweddol, a fyddai fel arfer yn offeiriad a oedd yn gyfarwydd â'r gyfraith, a byddai'n mwynhau cryn dipyn o gyfoeth ac roedd ganddo statws uwch na'r ficer.








# Hanes Magwyr gyda Gwndy

Mae'r statws hwn yn cael ei adlewyrchu ym maint ac olion Tŷ'r Procurator sydd wedi'i leoli i'r gogledd-orllewin o'r fynwent ac yn wreiddiol o fewn ei therfynau. Mae'n ymddangos bod yr adeilad wedi'i adeiladu yn y 14eg ganrif a dyma'r unig un o'i fath yng Nghymru, tra credir mai dim ond dwy enghraifft sydd yn Lloegr.

Ar ddiwedd y 1990au, darganfuwyd arch garreg yn ystod gwaith adeiladu. Y tu mewn roedd sgerbwd menyw ifanc sy'n dyddio o'r drydedd neu'r bedwaredd ganrif OC.

Yn 1994 darganfuwyd olion cwch o'r 13eg ganrif, a ddefnyddiwyd ar gyfer masnachu ar hyd ac ar draws Aber Afon Hafren, ac efallai gydag Iwerddon, wedi'u claddu ym mwd yr aber ger Pîl Magwyr. Canfuwyd bod y cwch yn cario mwyn haearn o Forgannwg.

Mae Magwyr, fel "Magur", yn un o'r ychydig drefi i ymddangos ar fap Cambriae Typus yn 1573.

Mae'r dref wedi'i chlystyru o amgylch Sgwâr, a oedd, hyd at adeiladu'r rheilffordd, yn ganolfan masnach sylweddol mewn gwartheg i Wlad yr Haf trwy Pîl Magwyr ac Aber Hafren.









# Gweithgareddau, Cynlluniau a Phrosiectau cyfredol

Nid yw Magwyr gyda Gwndy yn dechrau o dudalen wag gan fod y gymuned eisoes yn elwa o nifer o fuddsoddiadau lleol sy'n cefnogi datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

### Gorsaf Rhodfa Magwyr gyda Gwndy

Cynigir Magwyr gyda Gorsaf Gwndy fel gorsaf rhodfa - gorsaf y bydd y gymuned leol yn ei chyrraedd yn bennaf trwy gerdded a beicio. Mae'r cynlluniau penodol yn cynnwys:

- Pont droed gwbl hygyrch, gyda lifftiau.
- Man gollwng a chasglu pwrpasol ar gyfer ceir.
- Cysylltiadau â safleoedd bysiau presennol ar y Brif Ffordd.
- Bydd y danffordd bresennol o'r pen gorllewinol a'r bont wrth ei hymyl yn aros ond ni fydd yn rhan o fynediad yr orsaf - dyna beth yw diben y bont newydd

Bwriad y cynnig yw defnyddio prif ffordd y B4245 ar gyfer mynediad i geir i'r man casglu a gollwng ac i'r nifer fach o gyfleusterau bathodyn glas. Ni fydd parcio a theithio yng ngorsaf newydd Magwyr gyda Gwndy – gan fod maes parcio ar gael yng Nghyffordd Twnnel Hafren. Bydd cyfleusterau cadw beiciau ger y brif fynedfa a'r bont droed i'r platfformau. Bydd gwelliannau i deithio llesol yn helpu i ddarparu mynediad i'r orsaf newydd ac opsiynau ar gyfer cyfnewidfa fysiau.

Mae creu lleoedd yn ymwneud ag edrych ar ddatblygiad yr orsaf reilffordd fel mwy na dim ond ffordd o gael mynediad at wasanaethau trên. Bydd yr orsaf, a fydd o fewn pellter cerdded o ac i gymunedau sefydledig Magwyr gyda Gwndy, yn gweithredu fel porth croesawgar i'r ardal leol. Y bwriad yw i fynedfa'r orsaf fod yn nodwedd nodweddiadol yn y tirwedd, tra'n dal i ddarparu cyfleusterau gorsaf integredig fel tocynnau a gwybodaeth am drenau'n gadael a chyrraedd. Bydd yr orsaf yn cael ei chysylltu â llwybrau cerdded a beicio presennol, gyda diogelwch yn flaenoriaeth. Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod arwyddocâd y safle hwn i fioamrywiaeth. Ym mis Mehefin 2025 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddyraniad o £445 miliwn ar gyfer uwchraddio seilwaith rheilffyrdd ledled Cymru, gan gynnwys Gorsaf Rhodfa Magwyr gyda Gwndy.





# Gweithgareddau, Cynlluniau a Phrosiectau cyfredol

## Prosiectau Teithio Llesol

Mae proses WelTAG (canllawiau arfarnu trafnidiaeth Cymru) Cyngor Sir Fynwy wedi nodi bod gan Lannau Hafren gysylltiadau rheilffyrdd da – yn rhai cenedlaethol ng Nghyffordd Twnnel Hafren a lleol yng Nghil-y-coed, gyda gorsaf Magwyr (Metro De Cymru) i'w hychwanegu yn y dyfodol. Mae hefyd wedi'i gysylltu'n gymharol dda â bws.

Mae'r cynllun teithio llesol yn gosod amcan i "ddylunio system deithio a thrafnidiaeth hygyrch, iach, gynaliadwy, gan gefnogi teithio iach i'r ysgol a chysylltu cymunedau i'r gorllewin o Gil-y-coed i Gil-y-coed trwy lwybr uniongyrchol a deniadol. Bydd hyn yn cyfrannu at rwydwaith cydlynol o lwybrau teithio llesol o ansawdd uchel ledled Glannau Hafren sy'n cefnogi gwytnwch gwasanaethau cyhoeddus a lleoliadau lleol yn yr ardal, megis canolfan TogetherWorks Cil-y-coed, Llyfrgell a Chanolfan, a Chanolfan Gymunedol Magwyr gyda Gwndy."

Amlinellir camau'r gwaith isod, ac mae elfen Magwyr wedi'i chynllunio i'w datblygu yn y dyfodol unwaith y bydd rhwydwaith trefi Cil-y-coed ar waith, gan gynnwys cysylltiadau â Chyffordd Twnnel Hafren. Mae gwaith Magwyr gyda Gwndy wedi'i ganoli ar y B4245 ac mae'n destun datblygiad dylunio terfynol ac mae'n gweithio ar gyfer Gorsaf Rhodfa Mawyr gyda Gwndy.

- Cam 1 – Gwndy i Rhosied
- Cam 2 – Heol Gorsaf Rhosied i Gyffordd Twnel Hafren
- Cam 3 – Cyffordd Twnel Hafren i Orsaf Reilffordd Cil-y-coed

## Prosiect Gwastadeddau Gwent

Cors Magwyr yw'r ardal gymharol naturiol olaf o ffendir ar Wastadeddau Gwent. Fel lle y gallwch gael cipolwg cyflym o las y dorlan neu weld gweision neidr lliwgar sy'n gwibio dros y brwyn, mae hwn yn lle ysbrydoledig i ymweld ag ef. Yn yr hydref a'r gaeaf mae'r warchodfa yn arbennig o ddeniadol i wylwyr adar gan fod y pwll yn rhoi noddfa i adar gwyllt sy'n gaeafu ac ymfudwyr sy'n mynd heibio.

Mae gan Gors Magwyr le arbennig yn hanes Ymddiriedolaeth Natur Gwent gan mai dyma lle ymunodd grŵp bach o naturiaethwyr at ei gilydd i ffurfio'r hyn sydd bellach yn Ymddiriedolaeth Natur Gwent, gan sicrhau hon fel eu gwarchodfa natur gyntaf. Mae'r warchodfa wedi cael ei ehangu'n ddiweddar i ddarparu hafan fwy i fywyd gwyllt gwlyptir. Mae Cors Magwyr yn arbennig o gyfoethog mewn byd natur oherwydd yr amrywiaeth o gynefinoedd sy'n bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys dolydd gwair llaith, brwyn ffendir, gwely cyrs, prysgwydd, helyg tociedig, coetir gwlyb, pwll mawr a'r ffosydd draenio niferus.



# Cyd-destun Polisi

Mae cyd-destun polisi Magwyr gyda Gwndy yn rhoi cyfeiriad a chysondeb strategol hanfodol ar gyfer y cynllun creu lleoedd hwn. Mae'n sefydlu'r fframwaith y mae'n rhaid i fentrau adfywio lleol weithredu ynddo ac yn dangos cyfleoedd allweddol ar gyfer datblygu.

## Fframwaith Polisi Cenedlaethol

Ar lefel genedlaethol, **Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040** sy'n gosod y fframwaith datblygu cyffredinol, er nad yw Magwyr gyda Gwndy wedi'i dynodi fel Ardal Twf Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae polisïau'r cynllun cenedlaethol ar gefnogi cymunedau ac economïau gwledig, adfywio trefol o dan arweiniad y sector cyhoeddus, a darparu tai fforddiadwy yn cynnig cyfleoedd sylweddol i fynd i'r afael â heriau lleol allweddol.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn sefydlu saith nod llesiant ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddangos ystyriaeth o 'bum ffordd o weithio': cyfranogi, cydweithio, integreiddio, atal, a meddwl hirdymor. Mae'r Ddeddf yn sail i'r dull datblygu cynaliadwy sy'n rhaid seilio pob penderfyniad creu lleoedd arno.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru (2024)** yn rhoi creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio, gan ei gwneud yn ofynnol bod pob penderfyniad datblygu yn cyfrannu tuag at greu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, egnïol, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Mae'r polisi yn diffinio creu lleoedd fel dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl.

Mae polisi trafnidiaeth yn cael ei arwain gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus drwy'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy.

## Polisi Canol Trefi Llywodraeth Cymru

Mae'r **Rhaglen Trawsnewid Trefi** yn canolbwyntio ar bolisi 'Canol Trefi yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru, sy'n hyrwyddo datblygiad preswyl yng nghanol trefi, a gweithredu ar y cyd ar draws sectorau.

Mae canllawiau **Comisiwn Dylunio Cymru** yn pwysleisio y dylai cynlluniau creu lleoedd gael eu harwain yn lleol, ymgynghori â rhanddeiliaid amrywiol, ac ystyried pob cyfle ariannu y tu hwnt i fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus yn unig. Dylai cynlluniau gyd-fynd â chanlyniadau ehangach gan gynnwys iechyd a llesiant, datgarboneiddio, a lleihau anghydraddoldeb.



# Cyd-destun Polisi

## Cyd-destun Rhanbarthol a Lleol

Ar y lefel ranbarthol, mae **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** yn cynnig cyfleoedd cydweithredol am ddatblygu economaidd, tra bod Cynllun Cymunedol a **Chorfforaethol Cyngor Sir Fynwy** yn blaenoriaethu cyfiawnder cymdeithasol, creu menter a swyddi, gwasanaethau hygyrch yn lleol, a thai o safon.

Nod y **Cynllun Datblygu Lleol newydd** sy'n dod i rym (2018-2033) yw cyflawni nod craidd y cyngor i ddod yn sir ddi-garbon. Mae ei amcanion allweddol yn cynnwys denu pobl ifanc er mwyn ailgydbwyso demograffeg, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb tai, ac ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur trwy ddatblygu cynaliadwy.

Ysgrifennwyd **Cynllun Datblygu Cyngor Tref Magwyr gyda Gwndy 2014-2019** gan yr hen gyngor cymuned yn 2014. Er ei bod wedi dyddio, dyma'r unig ddogfen sy'n darparu fframwaith lleol o gynlluniau y mae'r cyngor tref wedi'i ddatblygu. Mae pedwar prif ddiben i'r cynllun datblygu hwn:

- Datgan amcan a chynlluniau'r cyngor a helpu i gyllidebu ar gyfer praesept blynyddol y Dreth Gyngor
- Helpu'r Cyngor i gyflawni ei rôl o fewn y Gymuned
- Cyfleu cynlluniau a mentrau'r Cyngor i'w drigolion
- Gosod sail fel y gall y gymuned gymryd rhan mewn llunio dyfodol eu tref.




Ei ddatganiad cenhadaeth yw "Gwarchod a gwella Magwyr gyda Gwndy fel lle deniadol a chynaliadwy i fyw, ymweld a gweithio" gyda'i brif amcanion yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Diogelu a gwella gwasanaethau ac asedau craidd a hyrwyddo'r cyngor cymuned
- Amlygu'r trefi o fewn cyfundrefn dwristiaeth Cyngor Sir Fynwy
- Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfleusterau a digwyddiadau o fewn y gymuned ac annog cyfranogi cymunedol
- Diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, bioamrywiaeth a chymeriad ledled y trefi
- Gwella ffordd o fyw y dref a chydnabod llwyddiannau lleol
- Cyfathrebu'n well â phreswylwyr trwy amrywiol ddulliau.

Mae'r fframwaith polisi amlhaenog hwn yn creu cyfleoedd a gofynion ar gyfer adfywio Magwyr gyda Gwndy, gan bwysleisio datblygu cynaliadwy, cynnwys y gymuned, a chydgflawni ar draws pob lefel o lywodraeth a sefydliadau rhanddeiliaid.

Mae trosolwg llawn o'r cyd-destun polisi ar gael mewn dogfen ar wahân, **Adroddiad Llinell Sylfaen Magwyr gyda Gwndy**, y gallwch ei gael drwy e-bostio: **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**

# Newid Hinsawdd a Fframwaith Cynaliadwyedd

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau sy'n diffinio'n hoes, ac mae'n rhaid i ymateb Magwyr gyda Gwndy adlewyrchu gofynion polisi cenedlaethol a chyfleoedd lleol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a datganiad Cyngor Sir Fynwy o argyfwng hinsawdd yn 2019 sefydlu disgwyliadau clir y dylai penderfyniadau cynllunio a creu lleoedd gyfrannu at ddatgarboneiddio a gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd.

Mae'r cynllun creu lleoedd hwn yn integreiddio ystyriaethau hinsawdd trwy ei holl gynigion yn hytrach na thrin cynaliadwyedd fel mater ar wahân. Mae'r holl brosiectau yn y cynllun wedi'u cynllunio i gefnogi trawsnewidiad Magwyr gyda Gwndy i dyfodol digarbon wrth addasu i'r effeithiau y mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn eu cael.

## Cyfleoedd Hinsawdd Magwyr gyda Gwndy

Mae lleoliad unigryw'r dref ar Lannau Hafen yn cynnig cyfleoedd penodol symud yn raddol drosodd at drafnidiaeth rheilffordd a chyhoeddus gyda'r cynlluniau arfaethedig am orsaf reillfordd rhodfa a buddsoddiad mewn teithio llesol, gan helpu i leihau dibyniaeth ar gair. Mae'r agosrwydd at Aber Afon Hafen yn golygu'r angen am Gynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS), a phlannu ar gyfer gwytnwch rhag llifogydd. Mae cyfleoedd i dyfu bwyd lleol ar bocedi o dir a danddefnyddir ac i addasu adeiladau cymunedol at ddefnydd ynni adnewyddadwy.



## Ymgorffori Mesurau Cynaliadwyedd

Yn hytrach na rhestru mesurau cynaliadwyedd cyffredinol, mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod ystyriaethau hinsawdd yn cael eu gwau ym mhob thema prosiect. Mae gwelliannau Sgwâr Magwyr yn ymgorffori gerddi glaw helaeth a SUDS i reoli mwy o law tra'n darparu manteision bioamrywiaeth. Mae gwelliannau i'r parth cyhoeddus yn blaenoriaethu plannu coed a seilwaith gwyrdd a fydd yn helpu tymheredd trefol cymedrol wrth wella ansawdd aer. Mae prosiectau trafnidiaeth yn canolbwyntio ar seilwaith teithio llesol a gwefru cerbydau trydan er mwyn lleihau allyriadau o ddibyniaeth bresennol y dref ar geir.

Bydd yr holl welliannau i adeiladau a hyrwyddir drwy'r cynllun hwn yn cefnogi gwell effeithlonrwydd ynni ac, lle bo hynny'n briodol, cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae pwyslais y cynllun ar ddod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol yn cynrychioli dull sylfaenol o weithredu cadarnhaol at yr hinsawdd: ailddefnyddio strwythurau presennol yn hytrach na gofyn am adeiladu newydd tra'n dileu'r allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladau diffaith.

Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau bod adfywio Magwyr gyda Gwndy yn cyfrannu'n gadarnhaol at wydnwch lleol a nodau hinsawdd cenedlaethol, gan greu tref sy'n economaidd fywiog ac yn amgylcheddol gynaliadwy.

# Ffeithiau a Ffigurau Allweddol

Gall adeiladu ar y sgyrsiau, a'r data defnyddiol a'r wybodaeth ddaearyddol am Magwyr gyda Gwndy sydd gennym eisoes, ein helpu i ganfod cyfleoedd i'r gymuned, busnesau lleol a grwpiau a sefydliadau eraill. Mae data ac ystadegau yn ein helpu hefyd i ddeall ein perthynas â ffigurau Cymru gyfan a sut mae Magwyr gyda Gwndy yn cymharu â lleoedd eraill sy'n debyg o ran maint a daearyddiaeth.


## Poblogaeth

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod gan Magwyr gyda Gwndy boblogaeth o 6,000 o drigolion sy'n byw ar 2,500 o aelwydydd unigol. Mae poblogaeth y dref ar ei uchaf rhwng 44 a 64 oed, gan wastadhau ar ôl hyn, a disgyn yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer pobl dros 74 oed, tua 0.5% yn llai. Mae nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 17 oed a 25 i 29 oed yn cyrraedd cyfartaledd Cymru, ond rhwng y bandiau oedran hyn, mae'r boblogaeth yn gostwng tua 0.7% o bwyntiau..

**Poblogaeth**
**6,000**


## Gweithgarwch Economaidd

Mae gan Magwyr gyda Gwndy lefelau uwch o weithgarwch economaidd, sef 62.9% o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 53.5%, sy'n dangos manteision y dref mewn perthynas â theithio i'r gwaith. Mae nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar 9% pwynt yn is na chyfartaledd Cymru, gyda nifer y bobl ddi-waith bron i hanner y cyfartaledd o 3.1%. Mae 16.1% o breswylwyr nad ydynt erioed wedi gweithio, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 23.1%. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cymuned sy'n economaidd weithgar ac yn symudol ond sy'n tueddu i weithio y tu allan i ardal Glannau Hafren, mewn llefydd fel Casnewydd, Caerdydd, Bryste a'r tu hwnt.




## Cymwysterau a Sgiliau

Mae gan y boblogaeth gymwysterau da, tua 10 pwynt canran uwch na chyfartaledd Cymru. Mae 11.8% o'r boblogaeth heb ddim cymwysterau o gymharu â chyfarteledd Cymru o 19.9%.




## Cyflogaeth

Y prif fathau o alwedigaeth yw swyddi rheoli (14.3%) a phroffesiynol (26%), (3.8 a 7.8 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru). Mae nifer y bobl sy'n gweithio mewn swyddi prosesu, peiriannau a pheiriannau 1.9 pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru a 3.8 pwynt canran yn is mewn swyddi elfennol.

# Ffeithiau a Ffigurau Allweddol

## Tai

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn cynnwys 2 (38.7%), 3 (17%) neu 4 neu fwy (19.5%) o bobl, gyda 72.1% o'r boblogaeth leol ar aelwydydd un teulu, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 63.1%. Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr yn berchen ar eu cartref yn llwyr neu'n berchen arno gyda morgais neu fenthyciad, sy'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a nifer y teuluoedd sy'n byw yn y gymuned. Mae cartrefi rhent cymdeithasol yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 16.5%, sef 7.2%. Nid oes cynrychiolaeth helaeth gan y farchnad rentu breifat.


Mae preswylwyr yn tueddu i fyw mewn tŷ neu fyngalo (95.3%), gyda dim ond 4.1% yn byw mewn fflat neu maisonette, sy'n llawer is na chyfartaledd Cymru o 12.5%. Nifer y bobl sydd â chartref ac iddo 4 ystafell wely neu fwy yw 43.5%, mwy na dwbl cyfartaledd Cymru o 20.6%. Diddorol yw nodi bod 0.6% o'r boblogaeth leol yn byw mewn carafán neu gartref symudol arall sy'n debygol o adlewyrchiad o Barc Carafanau lleol Beeches.



2 o bobl 38.7% | 3 o bobl 17% | 4 neu fwy o bobl 19.5%

## Troseddu

Mae nifer y troseddau a gaiff eu riportio ym Magwyr gyda Gwndy yn gymharol isel. Y prif fathau o droseddu a gafodd eu riportio rhwng mis Hydref 2022 a mis Hydref 2023 yw i) treisgar ii) lladrata iii) yn ymwneud â cherbydau a iv) y drefn gyhoeddus.




**Gweithio o Gartref**

## Teithio i'r Gwaith

Mae trigolion yn tueddu i gymudo rhwng 10 a 30km, gyda Casnewydd, Caerdydd, Bryste a Chymoedd Gwent o fewn cyrraedd hawdd. Mae 6% o drigolion yn teithio dros 30 milltir, sy'n adlewyrchu cysylltedd da y dref. Mae 40.4% o breswylwyr yn gweithio'n bennaf o'u cartref, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 25.6%. Mae cyfle i fanteisio ar y rhan hon o'r gymuned wrth edrych ar wasanaethau a chyfleusterau sylfaenol sy'n cefnogi gweithio o gartref fel ystafelloedd cyfarfod a gwasanaethau digidol ac argraffu.

# Dadansoddiad o Ganol y Pentref

Ers 1993 mae Cyngor Sir Fynwy a hen Gyngor Bwrdeistref Trefynwy wedi cynnal astudiaethau blynyddol o ganol trefi, sydd bellach yn darparu cyfres werthfawr o ddata dros amser. Yr arolwg arferion siopa defnyddwyr yw'r ddogfen allweddol i ddeall arferion siopa trigolion y dref a sut y bydd y rhain yn effeithio ar fywiogrwydd a hyfywedd canol y pentref.

Mae Magwyr gyda Gwndy wedi'i leoli o fewn "parth 6" gorllewin Glannau Hafren (Cil-y-coed 2) sy'n cynnwys, Rhosied, Magwyr gyda Gwndy, a phoblogaeth o 9,305 ar draws ardal cod post NP26. Nododd yr arolwg yr ymddygiadau siopa canlynol ar lefel leol:

### Prif siop neu siop achlysurol ar gyfer prif siopa bwyd

- Asda, Woodstock Way, Cil-y-coed (43%)
- Aldi, Ffordd Casnewydd, Cil-y-coed (32%)




### Siopau a ddefnyddir ar gyfer siopa bwyd ychwanegol

- **Asda, Woodstock Way,** Cil-y-coed (15%)
- Aldi, Ffordd Casnewydd, Cil-y-coed (14%)
- Co-operative, Y Groes, Ffordd Casnewydd, Magwyr (13%)

### Siopau nwyddau heblaw bwyd: dillad, esgidiau ac eitemau ffasiwn arall

- Cribbs Causeway, Bryste (32%)
- Parc Siopa Casnewydd (Spytty) (21%)
- Canol Dinas Bryste (20%)



### Nwyddau fferyllfa, deunydd ymolchi a cholur

- **Canol Tref Cas-gwent** (28%)
- Cribbs Causeway, Bryste (24%)
- Canol Tref Cil-y-coed (20%)

### Dodrefn, carpedi a deunydd dodrefnu meddal

- Parc Siopa Casnewydd (Spytty) (13%)

### Cyfrifiaduron, setiau teledu, peiriannau golchi, poptai etc

- Parc Siopa Casnewydd (Spytty) (17%)

### Nwyddau cartref, gwydr, llestri ac offer cegin

- Cribbs Causeway, Bryste (29%)
- Canol Tref Cas-gwent (12%)

### Nwyddau DIY, haearn a garddio

- Canol Tref Cil-y-coed (21%)
- Canol Tref Cas-gwent (18%)

### Banciau, gwasanaethau ariannol a chyfreithiol eraill

- Canol Tref Cas-gwent (19%)

### Gweithgareddau Hamdden a'r Celfyddydau

- **Canolfan Hamdden Cil-y-coed** (67%)



### Y 2 simena mwyaf poblogaidd

- Cineworld, Parc Siopa Casnewydd (19%)
- Vue Cinema, Cwmbran (16%)

# Canol y Pentref

Er bod Magwyr gyda Gwndy wedi'i ddiffinio yn ddiweddar fel tref oherwydd y twf yn ei phoblogaeth, mae'r canolbwynt lleol ar gyfer siopa, bwyta allan a chymdeithasu yn cael ei adnabod fel canol y pentref.

Mae canol y pentref oddi ar y B4245, gyda dau bwynt mynediad o Ffordd Casnewydd i'r gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain. Mae'r ddynesfa gychwynnol yn dod â chi i'r gylchfan lle mae'r siop fwyd Co-operative a thafarn y Wheatsheaf wedi'u lleoli. O'r fan hon mae'r stryd unffordd yn eich arwain i Sgwâr Magwyr, sef y brif ganolfan fasnachol gyda siopau, mannau bwyta a busnesau eraill wedi eu lleoli o gwmpas y llecyn canolog. Ar yr ymylon mae rhai busnesau ychwanegol fel barbwr, garej atgyweirio moduron a siopau cludfwyd, gyda meysydd parcio cyhoeddus yn agos oddi ar Sycamore Terrace, y Sgwâr a Withy Close. Mae cyfleusterau cymunedol eraill i'w cael o fewn canol y dref neu gerllaw. Ar hyd y B4245 mae cwmni gwerthu ceir a chaffi.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr amrywiaeth o ddibenion, eiddo gwag, cyflwr y farchnad eiddo, parcio a digwyddiadau a gwyliau ar y tudalennau canlynol.





# Canol y Pentref


## Amrywiaeth o Ddibenion

Busnesau o'r sector gwasanaethau (fel gwallt a harddwch) a'r sector hamdden (fel bwyd a diod) sydd â goruchafiaeth ar Heol Casnewydd, Stryd Brassnocker a'r Sgwâr, a ddilynir gan siopau cymhariaeth (manwerthu nad yw'n ymwneud â bwyd) a rhai mathau eraill o ddefnydd gan gynnwys Neuadd yr Eglwys, cwt y Sgowtiaid a'r Geidiaid a swyddfeydd y cyngor tref yn ogystal â'r feddygfa leol. Yn unol â'r tueddiadau cenedlaethol, mae'r siopau cymhariaeth wedi lleihau, sy'n adlewyrchu'r arferion siopa a amlygwyd yn yr arolwg aelwydydd, gyda thrigolion yn siopa ym Mharc Siopa Casnewydd neu yn Cribbs Causeway neu ganol dinas Bryste. Mae'r defnydd gwasanaethau a hamdden yn cyfateb i dueddiadau'r DU gyda chanol y dref yn cael ei ystyried yn lle ar gyfer gwasanaethau iechyd, gwallt a harddwch ac i gyfarfod â ffrindiau a theulu am baned, pryd o fwyd neu i gymdeithasu yn y tafarndai lleol.

Mae dadansoddiad manylach o'r mathau o ddefnydd yn dangos bod naw busnes iechyd a harddwch annibynnol, dau gaffi a dwy siop cludfwyd. Mae'r bwytai yn cynnwys bwyd Indiaidd ac Eidalaidd, a dwy dafarn, y Wheatsheaf a'r Golden Lion. Mae busnesau nodedig eraill yn cynnwys Village Treats, The Village Gate Deli, a Scent and Senses. Mae'n bwysig nodi bod gan ganol y dref swyddfa bost, fferyllfa, deintydd a meddygfa.

**Ffigur 19**

Amrywiaeth Busnesau 2024 – Dadansoddiad Manwl




Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

# Canol y Pentref

## Manwerthwyr a Gynrychiolir

Mae dadansoddiad o fusnesau annibynnol a busnesau lluosog (sawl siop neu ganghennau mewn sawl lleoliad, nid o reidrwydd ledled y wlad) yn dangos bod Magwyr gyda Gwndy ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru gyda siopau lluosog yn cynnwys y Co-operative Foodstore, Hosbis Dewi Sant, Fferyllfa Magwyr (Avicenna Pharmacy) a'r Swyddfa'r Post.

| Mathau o unedau | % | Cymru | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|
| Lluosog | 4 | 14% | 33% |
| Annibynnol | 24 | 86% | 77% |
| Cyfanswm | 28 | 100% | 100% |

## Eiddo Gwag

Ar adeg yr arolwg canol y dref, roedd un eiddo yn wag yn rhif 4 y Sgwâr, a oedd gynt yn optegydd.

## Llif Cerddwyr

Nid oes dim data llif cerddwyr ar gael gan y cyngor sir. Mae arsylwadau yng nghanol y dref yn dangos bod maes parcio'r Sgwâr yn cynhyrchu llif cerddwyr yn ôl ac ymlaen i'r Sgwâr, gyda meysydd parcio ymyl y canol yn creu gweithgareddau cysylltiedig rhwng lleoedd allweddol fel y feddygfa, y deintydd, y fferyllfa, y swyddfa bost a Neuadd yr Eglwys. Gwelir cerddwyr hefyd yn cerdded i mewn i ganol y dref o gymdogaethau ar hyd Ffordd Casnewydd ac i mewn i'r Sgwâr.

## Perchnogaeth Eiddo Canol y Dref

Mae'r holl eiddo yng nghanol y dref mewn dwylo preifat heb ddim asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd ac eithrio meysydd parcio, mannau hamdden gerllaw a rhai tai ar gyrion canol y dref, The Lawns a Chester Close, sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Sir Fynwy.

## Parcio

Mae'r meysydd parcio canlynol yn eiddo i Gyngor Sir Fynwy ac yn cael eu rheoli gan Gyngor Sir Fynwy ac maent yn rhad ac am ddim i'w defnyddio.

| Enw'r Maes Parcio | Lleoedd Parcio | Lleoedd i'r Anabl | Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan |
|---|---|---|---|
| Sgwâr Magwyr | 31 | 3 | 0 |
| Sycamore Terrace | 24 | 4 | 2 |
| Withy Close | 24 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **79** | **9** | **2** |

# Dadansoddiad o’r Lle



# Dadansoddiad o'r Lle

Bu'r dadansoddiad hwn o'r lle yn archwilio cymeriad Magwyr gyda Gwndy, ynghyd â'r cyd-destun adeiledig, patrymau trafnidiaeth a symud, amwynderau a chyfleusterau lleol, seilwaith gwyrdd, pyrth y dref, a darpariaeth parcio er mwyn deall beth sy'n gwneud y dref yn arbennig a chanfod lle mae mwyaf o angen gwelliannau. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r canfyddiadau allweddol.

## Trafnidiaeth a Symud

Mae Magwyr gyda Gwndy wedi'i leoli rhwng dau goridor trafnidiaeth allweddol, yr M4 i'r gogledd a phrif reilffordd de Cymru i'r de, sy'n cynnig mynediad i goridorau trafnidiaeth cenedlaethol o Abertawe i Lundain. Mae'r M4 yn hawdd ei chyrraedd o'r dref trwy Gyffordd 23A, tua milltir i'r gogledd-orllewin. Mae hyn yn gosod cyrchfannau fel Caerdydd a Bryste o fewn cyrraedd hawdd. Mae gorsaf drenau rhodfa newydd bellach wedi'i chadarnhau ym Magwyr gyda Gwndy. Bydd hon wedi'i lleoli yn ganolog yn y dref er mwyn cael mynediad hawdd a bydd yn cynnig cysylltiadau uniongyrchol â Chaerdydd, Bryste a Llundain.

Y B4245 yw'r brif ffordd sy'n rhedeg trwy ganol y dref. Mae hon yn cysylltu i'r gorllewin â'r M4 a Chasnewydd ac i'r dwyrain i Gil-y-coed. Y ffordd yw'r unig fynediad ymarferol i'r dref mewn car neu fws. Mae'r ddarpariaeth fysiau yn y dref ar hyd y B4245 yn bennaf, gan ddarparu cysylltiadau rheolaidd rhwng Casnewydd a Chas-gwent. Mae gwasanaeth mwy lleol ond llai aml yn cysylltu Magwyr â Chil-y-coed a Sudbrook.

## Teithio Llesol

Mae ffurf drefol Magwyr gyda Gwndy wedi ei threfnu i raddau helaeth o amgylch cyfres o lonydd un-fynedfa. Gall hyn gynyddu pellteroedd cerdded a beicio rhwng cyrchfannau, fodd bynnag, mae cyfres o gysylltiadau i gerddwyr trwy'r lonydd caeedig hyn ledled y dref yn ei gwneud yn dref gymharol rwydd i'w cherdded. Mae'r rhan fwyaf o dai o fewn 10 munud ar droed i gyrchfannau allweddol fel canol y pentref, y Ganolfan Gymunedol a'r orsaf drenau arfaethedig.

Mae'r B4245 yn llwybr allweddol i gerddwyr a beicwyr drwy'r dref gan fod pob llwybr yn tueddu i gydgyfeirio ati. Fodd bynnag, mae cymeriad y ffordd o dan oruchafiaeth ceir ac nid yw'n cynnig fawr ddim i gerddwyr a beicwyr. Mae cyfres o hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi'r dref ac yn mynd trwy fannau gwyrdd, gan gysylltu cyrchfannau allweddol â'r ardaloedd preswyl cyfagos. Bydd y cysylltiadau hyn yn cael eu gwella trwy gyfres o welliannau arfaethedig i lwybrau teithio llesol. Bydd hyn yn annog mwy o bobl i gerdded a beicio wrth deithio yn y dref. Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol 4 wedi'i leoli i'r dwyrain o'r dref, sy'n gyswllt beicio allweddol rhwng Abergwaun a Llundain ac mae cysylltiadau mwy lleol rhwng Cil-y-coed, Casnewydd a Chas-gwent.

## Cyfleusterau Lleol

Mae Magwyr gyda Gwndy yn cefnogi amrywiaeth dda o gyfleusterau sy'n helpu i ddiwallu anghenion o ddydd i ddydd trigolion lleol. Mae'r cyfleusterau hyn yn tueddu i fod wedi'u lleoli'n eithaf canolog ac yn agos at y B4245 felly maent yn hawdd eu cyrraedd i drigolion ac ymwelwyr.

Mae'r orsaf drenau arfaethedig a Chanolfan Gymunedol Magwyr gyda Gwndy wedi'u lleoli yng nghanol y pentref. Mae'r ganolfan yn cynnig nifer o ddosbarthiadau a digwyddiadau cymunedol a dyma galon gymdeithasol y dref. Mae gan y dref ddwy ysgol gynradd o fewn y dref. Mae Ysgol Gynradd Gwndy yn agos i'r ganolfan gymunedol ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Magwyr yn agos at ganol y dref. Mae'r ddwy ysgol yn agos at gyfleusterau allweddol ac yn hawdd eu cyrraedd i'r dref gyfan. Yr ysgol uwchradd agosaf yw Ysgol Gyfun Cil-y-coed. Mae Gwndy yn gartref i glwb athletau, sydd wedi'i leoli ym mhen dwyreiniol y pentref ac mae ganddo dŷ clwb a chaeau chwaraeon

## Seilwaith Gwyrdd

Mae cyfres o fannau gwyrdd o fewn Magwyr gyda Gwndy ac o'i gwmpas. Mae Mill Common yn wregys coetir mawr sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de trwy ganol y

# Dadansoddiad o'r Lle

dref. Er ei fod yn rhannu'r dref, mae cyfres o gysylltiadau llwybrau troed a ffyrdd yn helpu i gysylltu'r ddwy ardal. Mae'r coetir yn cysylltu ag Ysgol Gynradd Gwndy ac ymlaen tuag at y ganolfan gymunedol a'r orsaf drenau arfaethedig. Mae Mill Reen hefyd yn rhedeg o'r gogledd i'r de trwy'r dref. Mae'r sianel ddraenio hon yn ffurfio coridor gwyrdd o ymyl ogleddol y dref i lawr heibio i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Magwyr ac ymlaen tuag at y ganolfan gymunedol. Unwaith eto, mae llwybrau troed sy'n rhedeg ar hyd y coridor hwn yn ffurfio cysylltiadau pwysig i gerddwyr trwy'r dref.


Mae Cors Magwyr yn warchodfa natur sydd wedi'i lleoli i'r de o'r dref, ar ochr arall y rheilffordd. Mae cyfres o lwybrau a byrddau pren trwy'r gors yn ei gwneud yn gyrchfan boblogaidd i gerddwyr. Mae nifer o gaeau chwarae ac ardaloedd chwarae hefyd i'w cael ledled y dref felly mae'r rhan fwyaf o drigolion yn agos at rywfaint o fannau gwyrdd naturiol.

### Cyfleusterau Canol y Pentref


Mae canol tref Magwyr yn troi o gwmpas Sgwâr Magwyr, sy'n llecyn hanesyddol a llawn cymeriad. Mae'n cynnig amrywiaeth o fwyd a diod, a gwasanaethau fel optegwyr a thrin gwallt. Mae'r Sgwâr wedi'i gau'n rhannol i gerbydau, sy'n caniatáu lle i siopau a chaffis ymestyn allan. Mae Capel Bedyddwyr Magwyr yn ased cymunedol allweddol i ganol y dref. I'r gogledd o'r sgwâr mae lleoliad eilaidd gyda'r siop fwyd Co-op a thafarn Wheatsheaf. Mae hyn yn gweithredu fel porth i'r sgwâr.

Ar hyd y B4245 mae garej sydd â chaniatâd cynllunio i'w dymchwel i wneud lle i siop. Mae hwn yn cynnig ffryntiad i'r B4245 gyda lle pharcio y tu ôl a bydd yn gweithredu fel adeilad porth i ganol y dref. Mae fferyllfa, deintydd a meddygfa ym mhen dwyreiniol y sgwâr sy'n darparu canolfan iechyd i'r dref.

Mae dadansoddiad llawn o'r lle ar gael yn **Adroddiad Llinell Sylfaen Magwyr gyda Gwndy** y gallwch ei gael drwy e-bostio **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**



# Heriau a Chyfleoedd Ehangach




Mae pob porth i mewn i Magwyr yn brin o unrhyw deimlad o gyrraedd. Mae cyfle i wella'r pyrth trwy well arwyddion, trin arwynebau a gwella diogelwch cerddwyr.


Mae croesfannau i gerddwyr ar hyd y B4245 sy'n rhoi nifer o bwyntiau cyswllt gogledd-de i gysylltiadau allweddol a chanol tref Magwyr. Fodd bynnag, mae angen i bwyntiau croesi gael eu cyhoeddi'n well.

Mae'r brif ffordd trwy Magwyr gyda Gwndy, y B4245, yn anghyfeillgar i gerddwyr oherwydd llif uchel ceir. Gwella teithio llesol ar hyd y B4245.

Gwella cysylltiadau i gerddwyr i gyfleusterau allweddol oddi ar y B4245 trwy ddefnyddio arwyddion a llwybrau clir, uniongyrchol.

Bydd yr orsaf drenau newydd arfaethedig yn annog defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy ym Magwyr gyda Gwndy. Bydd yr orsaf yn cysylltu â llwybrau cerdded a beicio presennol i wella cysylltedd o fewn y dref.

# Heriau a Chyfleoedd Canol y Dref



# Dadansoddiad SWOT: Lleoliad

## Cryfderau

- Lleoliad ychydig oddi ar gyffordd 23A ar yr M4 gyda chysylltiadau â'r M5, yr A449 a'r M50 i Fryste a de-orllewin a chanolbarth Lloegr ac i Gasnewydd, Caerdydd ac ymhellach i dde Cymru.
- Agos at Gyffordd Twnel Hafren sy'n cynnig cysylltiadau rheilffordd â Chaerloyw a Chanolbarth Lloegr, Bryste (ac ymlaen) ac i orsafoedd eraill yn ne Cymru.
- Lleoliad o fewn Gwastadeddau Gwent ac yn agos at Goed Gwent, sy'n cynnig cyfleoedd hamdden gan gynnwys teithiau cerdded a llwybrau pellter hir a mynediad hawdd i lwybrau lleol ar hyd Aber Afon Hafren.
- Mae'r B4245 yn cysylltu Magwyr gyda Gwndy â threfi eraill gan roi mynediad hawdd at addysg, cyflogaeth, siopa, hamdden a chyfleusterau cymunedol eraill.

## Gwendidau

- Mae cyffordd yr M4 ar le prysur i mewn ac allan o Gymru ac felly mae'n profi tagfeydd ar adegau brig.
- Mae lleoliad Magwyr gyda Gwndy â chysylltiadau da sy'n rhoi dewis i drigolion. Adlewyrchir hyn yn arolwg siopa'r cyngor sir sy'n dangos symud y tu allan i'r ardal ei hun am siopau a hamdden.

## Cyfleoedd

- Gall Gorsaf Rhodfa Magwyr gyda Gwndy roi cymediad i drefi a dinasoedd cyfagos o fewn de Cymru, Bryste a de-orllewin Lloegr ac ymhellach i ffwrdd.
- Gall buddsoddi yng Nghyffordd Twnel Hafren a chysylltiadau Teithio Lleol ychwanegu at fanteision y lleoliad.

## Bygythiadau

- Angen rheoli seilwaith lleol gyda thwf mewn tai ac atyniad lleoliad Magwyr gyda Gwndy ac aneddiadau eraill Glannau Hafren

## Negeseuon Allweddol

- **Mae'r lleoliad yn atyniad allweddol i frodorion cynhenid Magwyr gyda Gwndy a'r rhai sy'n dewis byw yno; mae hyn â goblygiadau i gyfleusterau ac amwynderau presennol y gymuned ac o ran cynllunio ar gyfer seilwaith y dyfodol.**

# Dadansoddiad SWOT: Pobl

## Cryfderau

- Tref gyda phoblogaeth o 6,000 o drigolion ond gyda 20,000 o bobl o fewn 15 munud o amser gyrru. Yn 2021, roedd 2,500 o aelwydydd yn y gymuned.
- Mae'n boblogaidd gyda phobl rhwng 44 a 64 oed, gyda phoblogaeth yn y grŵp oedran hwn 2 bwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'n lle da i gael teulu.

## Gwendidau

- Gall y gostyngiad yn y boblogaeth dros 75 oed fod oherwydd diffyg tai ar gael i symud i gartref llai, neu ddarpariaeth gyfyngedig o lety gofal.
- Mae'r boblogaeth yn syrthio rhwng 29 a 44 oed gyda chyplau iau yn lleoli.

## Cyfleoedd

- Lle i deuluoedd gyda chyfleoedd i dreulio amser yn y gymuned, Sgwâr Magwyr ac allan ar Wastadeddau Gwent a'r bryniau gerllaw.

## Bygythiadau

- Nid yw Magwyr gyda Gwndy yn cael ei weld fel lle i bobl a chyplau iau oherwydd maint y tai, seilwaith a chyflogaeth leol.
- Nid yw colli'r genhedlaeth hŷn yn arwain at gymuned gytbwys ei hoedran gyda gweithgareddau a chydlyniaeth rhwng y cenedlaethau.

## Negeseuon Allweddol

- **Mae gan Magwyr gyda Gwndy apêl oherwydd ei leoliad a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ehangach; mae angen i'r dref ddiwallu anghenion teuluoedd iau o ran seilwaith cymunedol, bwyta allan, siopa cyfleustra lleol a mynediad at chwaraeon, hamdden a chefn gwlad.**
- **Angen ystyried cydlyniaeth cymunedol a chartrefi i drigolion hŷn ar mwyn cynnal eu rôl yn y gymuned.**
- **Mae'r berthynas â chymunedau eraill Glannau Hafren yn bwysig oherwydd bod y B4245 yn rhedeg drwyddynt a sut maent yn canfod a defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau ym Magwyr gyda Gwndy.**

# Dadansoddiad SWOT: Sgiliau a'r Economi

## Cryfderau

- Lefelau uchel o weithgarwch economaidd o gymharu â chyfartaledd Cymru gyda 62.9% o'r boblogaeth yn economaidd weithgar.
- Dim ond 1.7% yn ddi-waith, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.1%.
- Pobogaeth a chanddi sgiliau a chymwysterau uwch yn cael ei adlewyrchu gyda mwy mewn galwedigaethau rheoli a phroffesiynol.
- Dim ond 11.8% o'r boblgaeth sydd heb ddim cymwysterau o gymharu â chyfartaledd Cymru o 19.9%.

## Gwendidau

- Mae galwedigaethau yn y sector gofal a hamdden yn is na chyfartaledd Cymru, a ddilynir gan werthiannau a gwasanaethau cwsmeriaid, tua 2 bwynt canran is na'r cyfartaledd.
- 6% o drigolion yn teithio dros 39km i'w gwaith.

## Cyfleoedd

- 40.6% o'r trigolion yn gweithio o gartref yn bennaf o gymharu â chyfartaledd Cymru o 25.6%.

## Bygythiadau

## Negeseuon Allweddol

- **Tref cymudwyr – lle i fyw gyda mynediad i ddinasoedd a threfi yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth o statws uwch.**
- **Mae cyfle i fanteisio ar y gyfran hon o'r gymuned wrth edrych ar wasanaethau a chyfleusterau sylfaenol sy'n cefnogi gweithio o gartref megis ystafelloedd cyfarfod, gwasanaethau digidol ac argraffu.**

# Dadansoddiad SWOT: Cymuned

## Cryfderau

- Mae'r gymuned â chanran sylweddol is na chyfartaledd Cymru o aelwydydd â phob un o'r tri dimensiwn amddifadedd, gyda 57.4% heb eu dosbarthu.
- Mae'r mwyafrif o aelwydydd yn cynnwys 2, 3 neu 4 yn fwy o bobl, gyda 72.1% o'r gymuned yn aelwydydd un teulu, tua 9 pwynt canran uwchlaw cyfartaledd Cymru.
- Cyfradd isel o dai rhent cymdeithasol
- 40.4% yn berchnogion llwyr ar eu cartrefi.
- Trigolion yn graddio eu hiechyd fel da i dda iawn, tua 5.1% a 1.1% uwchlaw cyfartaledd Cymru.
- Mae Magwyr gyda Gwndy ymysg y 50% o gymunedau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

## Gwendidau

- Mae'r parth amgylchedd ffisegol ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o fewn y 10-20% mwyaf amddifad.
- Mae LSOA Mill 2 yn dangos graddau o angen o ran mynediad at wasanaethau, a datblygiad cymunedol a ffisegol.

## Cyfleoedd

## Bygythiadau

## Negeseuon Allweddol

- **Cymuned sy'n cynnal teuluoedd ac sy'n gyffredinol iach a heb fod mewn amddifadedd.**
- **Rhai pocedi o angen ynghylch yr amgylchedd ffisegol, mynediad at wasanaethau, a datblygiad cymunedol a ffisegol.**

# Dadansoddiad SWOT: Siopa a Hamdden

## Cryfderau

- Asda yng Nghil-y-coed gerllaw sydd fwyaf poblogaidd am brif siopa bwyd o fewn ardal Magwyr gyda Gwndy, yna Aldi yn yr un dref.
- Mae 13% o drigolion Magwyr gyda Gwndy yn siopa yn y Co-op lleol ar Ffordd Casnewydd.
- Canol trefi Cil-y-coed a Chas-gwent yw'r prif gyrchfannau ar gyfer DIY, nwyddau haearn ac offer garddio, yn ogystal â banciau a gwasanaethau ariannol a chyfreithiol eraill.
- Mae Canolfan Hamdden Cil-y-coed yn brif atyniad i drigolion Magwyr gyda Gwndy

## Gwendidau

- Cribbs Causeway, Bryste yw'r brif gyrchan am ddilladau ac esgidiau a nwyddau cartref

## Cyfleoedd

- Gall cynlluniau arfaethedig am fwy o dai gefnogi busnesau lleol a chanol y pentref.

## Bygythiadau

- Colli gwariant oherwydd mae gan drigolion allu da i symud a gweithio mewn trefi a dinasoedd gerllaw.

## Negeseuon Allweddol

- **Mae siopau cyfleustra yn cael ei gadw'n gyffredinol o fewn Glannau Hafren.**
- **Mae darparu profiad hamdden a diwylliant i drigolion ac ymwelwyr o bwysigrwydd cynyddol wrth i bobl dueddu i fynd allan o'r dref a'r ardal gyfagos.**
- **Mae hygyrchedd trefi mwy a dinasoedd gerllaw yn golygu mai yno mae trigolion Magwyr gyda Gwndy yn mynd am siopa cymhariaeth a profiadau diwylliannol mawr; ar y llaw arall does gan y dref mo'r boblogaeth i ddarparu hyn.**

# Dadansoddiad SWOT: Gweithgarwch

## Cryfderau

- Nifer o grwpiau a sefydliadau rhagweithiol sydd wedi dod â buddosddiad cymunedol ym Magwyr gyda Gwndy, megis Ffair Aeaf Magwyr, Canolfan Gymunedol, a Gorsaf Rhodfa Magwyr gyda Gwndy, ymysg eraill.
- Mae gan y cyngor tref gynllun datblygu a chyfres o brosiectau a gweithgareddau i'w datblygu a'u gweithredu.
- Amrywiaeth o grwpiau lleol ar gyfer y gymuned, yr amgylchedd, hamdden, digwyddiadau a phobl iau.
- Nifer o fannau chwaraeon a hamdden a llecynnau agored sy'n agos i ganol y dref.

## Gwendidau

## Cyfleoedd

- Adeiladu cynaliadwyedd hirdymor, sgiliau a gweithgarwch sefydliadau cymunedol a gwirfoddoli.

## Bygythiadau

- Capasiti ac olyniaeth gwirfoddoli o fewn y gymuned.

## Negeseuon Allweddol

- **Teimlad gwirioneddol o ymgyrchoedd a mentrau o dan arweiniad y gymuned, a seilwaith lleol yn ogystal â digwyddiadau sy'n gosod sylfaen gadarn i adeiladu arni.**

# Dadansoddiad SWOT: Symudiad

## Cryfderau

- Mynediad da i'r M4 a'r rhwydwaith ehangach y mae hynny'n ei ddarparu.
- Lle bach a chryno y gellir ei gerdded.
- Dim traffig trwodd felly traffig ceir lleol yn unig sydd gan ganol y dref. Mae hyn yn gwneud lle cymharol ddiogel i gerdded a beicio.
- Cyflenwad da o leoedd parcio am ddim yn agos at ganol y dref.
- Ar lwybr gwasanaeth bws rheolaidd i'r dref gyfagos.
- Mae bws yn dolennu'n uniongyrchol i ardaloedd preswyl i'r gogledd a chanol y dref.
- Rhwydwaith lleol o gysylltiadau cerdded a beicio sy'n gyffredinol ddiogel.

## Gwendidau

- Mae'r B4245 yn creu rhwystr ffisegol rhwng canol y dref a'r ardal breswyl i'r gogledd.
- Pyrth gwael ar y B4245 - mae'r lle yn 'anhysbys' i bobl nad ydynt yn lleol.
- Mae diffyg traffig drwodd yn nghanol y dref yn lleihau masnach.
- Er bod rhwydweithiau lleol i gerddwyr a beiciau, sy'n gyffredinol yn ddiogel, mae ardaloedd o hyd nad ydynt wedi'u cysylltu.
- Mae cysylltiadau i gerddwyr a beicwyr â Chasnewydd a Cil-y-coed yn wael ac yn annymunol oherwydd effaith traffig ar hyd y B4245.
- Seilwaith cyrchfan cyfyngedig ar gyfer beicwyr, megis lleoedd cyfleus a diogel i barcio beiciau yng nghanol y dref.

## Cyfleoedd

- Lleihau effaith lem y B4245.
- Gwella pyrth i ganol y dref ar hyd y B4245.
- Creu cysylltiadau lleol newydd i gerddwyr a beicwyr ac uwchraddio rhai presennol.
- Darparu cysylltiadau teithio llesol lletach a gwell i Gil-y-coed a Chasnewydd.
- Gorsaf rhodfa arfaethedig: cyswllt teithio llesol i'r Ganolfan Gymunedol a chanol y dref.
- Gwella seilwaith cyrchfan beicio.

## Bygythiadau

- Cynlluniau arfaethedig ar gyfer mwy o dai: pwysau ar y rhwydwaith trafnidiaeth presennol.

# Dadansoddiad SWOT: Parth Cyhoeddus

## Cryfderau

- Mae'r sgwâr yn creu canolbwynt lleol a chymunedol gwirioneddol yng nghanol canol y dref.
- Mae busnesau a gwasanaethau lleol yn ymestyn allan i'r sgwâr gan roi bywiogrwydd i'r lle.
- Mae gwead adeiledig hanesyddol yn rhoi lleoliad gwych ac ymdeimlad o le.
- Abaty a chysylltiadau â Gwastadeddau Gwent.
- Mae'r lle yn teimlo'n groesawgar ac mae ganddo ymdeimlad o gymuned a pherthyn.

## Gwendidau

- Mae parcio di-drefn yn y sgwâr yn effeithio'n negyddol ar rôl a swyddogaeth y lle.
- Mae angen mynd i'r afael ag ansawdd dodrefn stryd, fel blychau planhigion.
- Mae angen gwella'r pyrth, y llwybrau a'r arwyddion i mewn i ganol y dref.
- Mae'r ardal o flaen y Co-op yn teimlo o dan oruchafiaeth traffig ac yn or-beirianegol.
- Mae sawl safle ac ardal sydd o ansawdd gweledol gwael ac ar hyn o bryd yn tynnu sylw oddi wrth naws gadarnhaol y lle: er enghraifft safle y garej a'r hen fferm.
- Ychydig sydd o seilwaith trefol gwyrdd ac mae diffyg coed stryd.

## Cyfleoedd

- Rhesymoli'r defnydd o'r sgwâr a'r parcio ynddo: creu gwell lle cymdeithasol a chyhoeddus.
- Creu pyrth cadarnhaol i'r lle trwy drin strydoedd, tirlunio ac arwyddion.
- Adfer y cydbwysedd rhwng pobl a cherbydau yng nghylchfan y Co-op: creu lle.
- Cyflwyno tirlunio trefol o safon: seilwaith gwyrdd a glas.
- Gwella ansawdd cysylltiadau teithio llesol lleol rhwng cyfleusterau a chyrchfannau lleol.

## Bygythiadau

# Dadansoddiad SWOT: Cymysgedd o Ddibenion

## Cryfderau

- Canolfan wasanaethau leol ac annibynnol.
- Presenoldeb cryf o fusnesau gwallt a harddwch (9) a bwyd a diod (8) heb ddarpariaeth gystal o nwyddau nad ydynt yn fwyd.
- Mae gwasanaethau cymunedol eraill yn cynnwys swyddfa bost, fferyllfa, deintydd a meddygfa gyda Neuadd yr Eglwys yn atyniad i drigolion lleol.
- Mae'n lle i gyfarfod ffrindiau a theulu am baned, neu bryd o fwyd a chymdeithasu.

## Gwendidau

- Nid oes cynnig da o siopau cymhariaeth (nwyddau heblaw bwyd).
- Nid yw maint canol y dref yn fawr felly nid oes capasiti i ddiwallu galw yn y dyfodol.
- Atyniad Cribbs Causeway a Pharc Siopa Casnewydd oherwydd lefelau uchel o symudedd a phatrymau teithio i'r gwaith.

## Cyfleoedd

- Adeiladu ar gymeriad annibynnol, lleol a hygyrch canol y dref.

## Bygythiadau

- Patrymau teithio i'r gwaith a thrigolion yn sefydlu gweithgareddau cysylltiedig y tu allan i'r gymuned a'r ardal gyfagos.
- Nid yw'n weladwy iawn o'r B4245 i ymwelwyr am y tro cyntaf nac i ymwneud â busnesau.

## Negeseuon Allweddol

- **Cynnig lleol ac annibynnol sy'n cyflwyno'i hun fel canolfan wasanaethau trwy ei gymysgedd o fwyd a diod, gwallt a harddwch, siopa cyfleustra lleol a ategir gan feddygfa, deintydd, fferyllfa a lleoliadau cymunedol cyfagos.**

# Dadansoddiad SWOT: Eiddo Gwag

## Cryfderau

- Mae cyfraddau eiddo gwag yn isel iawn.
- Y boblogaeth breswyl o fewn 15 munud o daith gerdded i ganol y dref.
- Darpariaeth ddigonol o leoedd parcio ac mae'n cynhyrchu llif da o gerddwyr.

## Gwendidau

- Cyfyngedig yw'r cyfleoedd yng nghanol y dref i ddarparu lle masnachol ychwanegol.
- Busnesau ddim yn weladwy o'r B4245, sy'n cyfyngu ar fasnach pobl sy'n mynd heibio ac ymwelwyr tro cyntaf.

## Cyfleoedd

- Safle'r ganolfan MOT a'r garej wedi bod yn destun cais cynllunio a byddai'n cyhoeddi canol y dref yn well ac yn diwallu angen siopa lleol os caiff ei ailddatblygu.
- Mae angen manteisio mwy ar ei lleoliad o fewn Gwastadeddau Gwent o ran hamdden, byd natur a gweithgareddau.

## Bygythiadau

- Patrymau teithio i'r gwaith a thrigolion yn sefydlu gweithgareddau cysylltiedig y tu allan i'r gymuned a'r ardal gyfagos.

## Negeseuon Allweddol

- **Mae gan ganol y dref gynnig lleol cryf o fewn lleoliad cyfyngedig, eto mae rhai cyfleoedd i wella ei amlygrwydd i ymwelwyr a manteisio ar rywfaint o alw na chaiff ei ddiwallu am siopau cyfleustra a siopau bach nwyddau heblaw bwyd.**

# Dadansoddiad SWOT: Hunaniaeth

## Cryfderau

- Rhai digwyddiadau mawr adnabyddus fel Ffair Aeaf Magwyr.
- Cartref Bragdy Magwyr – sy'n adnabyddus yn genedlaethol.
- Lleoliad ar Wastadeddau Gwent.
- Mae'n dal i deimlo fel pentref o fewn ardal y Sgwâr sy'n cynnwys adfeilion hanesyddol a'i eglwys.

## Gwendidau

- Mae ei dwf wedi ei weld yn newid o bentref bach i dref o safbwynt ei boblogaeth.

## Cyfleoedd

- Manteisio i'r eithaf ar ei leoliad o fewn Gwastadeddau Gwent i ymwelwyr fel canolfan neu le i stopio ar deithiau cerdded neu feicio, yn ogystal ag ymwneud â byd natur a'r amgylchedd lleol.

## Bygythiadau


- Rheoli twf gan gynnal cymeriad, graddfa a theimlad o gymuned.

## Negeseuon Allweddol

- **Mae ei hunaniaeth wedi ei seilio ar hanes, y rheilffordd, y gwastadeddau a darganfyddiadau archaeolegol diweddar – angen ffurfio hunaniaeth ar gyfer heddiw sy'n dal gafael ar ei gorffennol ond sy'n cofleidio'r dref a'r gymuned heddiw.**
- **Mae ei lleoliad o fewn Gwastadedau Gwent yn gyfle yn yr economi ymwelwyr sydd angen manteisio i'r eithaf arno.**

# Fframwaith Cyfleoedd Magwyr gyda Gwndy

Trwy gymysgedd o sgyrsiau lleol a strategol, dadansoddi data ac ystadegau a gwybodaeth arall am Magwyr gyda Gwndy, gallwn adnabod ei heriau a chyfleoedd allweddol i'r gymuned, busnesau a grwpiau a sefydliadau eraill lleol.



# Yr Hyn a Ddywedodd Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid yng nghanol mis Hydref 2024, lle daeth grwpiau a sefydliadau lleol at ei gilydd i drafod heriau a chyfleoedd yng nghanol y pentref a'r dref ehangach.




## Lleoliad a Hunaniaeth

Mae'r lle yn teimlo'n gysylltiedig mewn perthynas â'r M4 a'r rhwydwaith ffyrdd ehangach, gan gynnig dewis a bod y prif reswm i bobl fyw yma. Er bod y pentref gwreiddiol wedi tyfu a dod yn dref o ran ei phoblogaeth, mae rhanddeiliaid yn teimlo ei fod wedi dal i gadw ei gymeriad pentref a'i ymdeimlad o gymuned. Mae canol y pentref o amgylch y Sgwâr wedi'i guddio oddi wrth goridor ffordd y B4245, a drafodir yn fanylach yn y cynllun hwn.

Y farn yw bod hunaniaeth Magwyr gyda Gwndy yn ymwneud yn bennaf â'i naws gymunedol a phentrefol. Er bod rhanddeiliaid lleol yn cydnabod eu bod yn rhan o Wastadeddau Gwent, mae angen manteisio ar hyn os yw canol y pentref i elwa o ymwelwyr sydd â diddordeb mewn byd natur, bywyd gwyllt, bioamrywiaeth a chymeriad y Gwastadeddau, yn ogystal â'i dreftadaeth. Mae cyfle hefyd i fanteisio i'r eithaf ar ddenu pobl sy'n cerdded neu'n beicio drwy'r pentref.

## Heriau Allweddol

**Parcio a Symudiad:**

Parcio Ceir. Y farn yw bod cyflenwad lleoedd parcio yn ddigonol ac eithrio pan fo digwyddiadau mawr fel y Ffair Aeaf. Mae canfod meysydd parcio wrth fynd i mewn i ganol y pentref o'r B4245 yn anodd i ymwelwyr tro cyntaf gyda maes parcio Withy Close yn anodd ei ganfod ac mae naws breswyl breifat iddo. Yn yr un modd, mae maes parcio Sgwâr Magwyr wedi ei guddio ychydig, gyda rhanddeiliaid yn siarad am ymwelwyr tro cyntaf yn gyrru drwy'r Sgwâr yn ofalus a heb wybod bod y maes parcio ar y blaen ar y chwith.

Parcio Beiciau. Nid oes digon o leoedd i barcio beiciau i ateb y galw, yn enwedig ar benwythnosau pan fydd beicwyr hamdden a theithiol yn ymgynnull yn y Sgwâr.

Symudiad. Y brif her yw gwybod bod canol pentref oddi ar y B4245, yn enwedig wrth ddod o'r gorllewin, gyda'r troad cyntaf yn mynd at le ac iddo naws preswyl ac arwyddion parhad i'r meysydd parcio yn mynd â chi trwy ystâd dai.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus:**

Bysiau. Bu'r rhanddeiliaid yn trafod y diffyg gwasanaeth bws yn gynnar yn y bore o ganol y pentref gan awgrymu y gallai'r gwasanaeth 74 sy'n cysylltu'r Bragdy gael ei ymestyn i'r pentref. Mae safleoedd bws ar y B4245 ac yn agos at ganol y pentref. Angen hyrwyddo'r bysiau sydd ar gael, neu byddant yn cael eu colli os nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon.

Trenau. Mae cyswllt teithio llesol â Chyffordd Twnnel Hafren ar hyd y B4245 yn cael ei nodi fel angen allweddol i drigolion lleol a'r farn yw bod yr orsaf llwybr rhodfa newydd yn allweddol i gysylltiadau lleol ac er mwyndenu ymwelwyr dydd i Wastadeddau Gwent.

**Y Parth Cyhoeddus a'r Tirwedd: :** Gallai'r dynesiad at y siop Co-operative a'i chylchfan fod yn well o ran lle a sut mae'n eich arwain i mewn i'r Sgwâr. Nid yw llwybrau cerdded i'r Sgwâr yn wych i ddefnyddwyr cadair olwyn a phramiau. Mae gan y Sgwâr y cymeriad iawn, ond mae'r tirwedd yn ddiffygiol ac mae angen ei wella.

# Yr Hyn a Ddywedodd Rhanddeiliaid

**Cymysgedd o ddibenion: :**

Rôl a swyddogaeth. Mae rhanddeiliaid yn cydnabod y teimlad o ganolfan wasanaethau lleol sydd i ganol y pentref a bod angen i chi siopa yn rhywle arall am nwyddau eraill. Hoffai rhanddeiliaid weld unrhyw fusnesau newydd a fyddai'n ategu'r rhai presennol a pheidio â thynnu masnach i ffwrdd.

Dewis. Mae trigolion lleol yn tueddu i edrych i'r dwyrain yn hytrach na'r gorllewin i wneud eu siopa nwyddau heblaw bwyd, gyda Cribbs Causeway ger Bryste yn cael ei weld yn fwy hygyrch na Chaerdydd.

Cyfleustra. Mae'r Co-op yn cael ei gweld fel siop ychwanegu allweddol ond hefyd fel prif siop fwyd i aelodau hŷn o'r gymuned felly mae'n cael ei gweld fel gwasanaeth hanfodol.

Gweithgarwch teuluol. Sut ydyn ni'n creu'r cynnig cywir sy'n denu teuluoedd trwy gydol y flwyddyn?

Eraill. Diffyg optegwyr yn yr ardal. Angen canolfan weithio hyblyg ac o bell neu gaffi rhyngrwyd.

**Cyfleusterau Canol Trefi:**

Iechyd. Soniodd rhanddeiliaid lleol am leihau gwasanaeth yn y feddygfa leol gyda chau am hanner diwrnod a rhai mân atgyfeiriadau yn cael eu cyfeirio at feddygfa Cil-y-coed. Mae diffyg lleoedd y Gwasanaeth Iechyd gyda deintyddion lleol hefyd yn cael ei nodi fel pryder allweddol.

Toiledau. Mae diffyg toiledau cyhoeddus yng nghanol y pentref yn golygu bod ymwelwyr yn defnyddio toiledau mewn busnesau pan fyddant ar agor.

Celfyddydau a diwylliant. Gallai lleoliad cymunedol gefnogi sinema dros dro, theatr a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol eraill. Angen cydweithredu gwell rhwng sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol.

**Treftadaeth:** Mwy o ddehongli a rhyngweithio â threftadaeth leol sydd hefyd yn ymwneud â'r Sgwâr. Trafododd un sefydliad rhanddeiliaid yr angen am amgueddfa dreftadaeth leol sy'n sôn am fywyd ar Wastadeddau Gwent a hanes yr ardal o'r cyfnod Rhufeinig i'r cyfnod canoloesol i'r rheilffordd a'r aber.






## Pobl a Chymuned.

**Tai:** Yn gysylltiedig â Magwyr gyda Gwndy fel lle i oedolion iau, mae'r diffyg tai cymysg o ran deiliadaeth a meintiau yn cael ei nodi fel rhwystr i bobl allu fforddio byw yn y gymuned.

**Chwaraeon a Hamdden:** Mae'r ddarpariaeth yn dda ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden, ond mae angen gwella hygyrchedd a chysylltiadau i bobl sydd eisiau cerdded yn hytrach na gyrru.

**Cynnwys Pobl Ifanc**: Mae darpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn faes allweddol i ganolbwyntio arno fel eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn chwarae rhan weithredol ym mywyd cymunedol, ac mae'r gymuned ehangach yn gwerthfawrogi eu cyfraniad.


# Eich Gweledigaeth ar gyfer dyfodol Magwyr gyda Gwndy

## Eich Gweledigaeth

Mae'r adran hon yn mynegi gweledigaeth uchelgeisiol ond gyraeddadwy ar gyfer yr hyn y gallai canol pentref Magwyr gyda Gwndy fod: lle o fewn Gwastadeddau Gwent sydd ag ysbryd cymunedol gwych, sydd â chysylltiadau da ac sy'n adnabyddus am ei fusnesau lleol, ei wasanaethau a lleoedd i gyfarfod. Yn hytrach na chael ei datblygu ar wahân, mae'r weledigaeth hon wedi deillio'n uniongyrchol o ymgynghori helaeth â phobl leol - o sgyrsiau anffurfiol ar y stryd i weithdai ffurfiol gyda grwpiau cymunedol a busnesau.

Mae'r weledigaeth yn adlewyrchu'r gobeithion a'r dyheadau ar y cyd a glywsom dro ar ôl tro yn ystod ein hymgynghoriad, gyda'r rhain yn canolbwyntio ar bedair thema allweddol: pyrth i ganol y pentref; cyrraedd yn y Sgwâr; ei Dreftadaeth a'r Gwastadeddau; a'i fywyd cymunedol.

Nid gorfodi newid o'r tu allan yw'r bwriad ond meithrin a chydlynu'r egni a'r syniadau sydd eisoes o fewn y gymuned, gan greu cyfeiriad cyffredin y gall pawb weithio tuag ato.



### MAGWYR GYDA GWNDY

Mae Magwyr gyda Gwndy yn gymuned sy'n adnabyddus am ei chroeso yng Ngwastadeddau Gwent. Ei chanolbwynt yw sgwâr y pentref lle mae pobl leol yn cyfarfod am baned, gan daro ar ymwelwyr sy'n crwydro Cors Magwyr a'i lonydd sy'n arwain i lawr i Aber Afon Hafren. Mae siopau a bwytai cyrchfan yn denu pobl o'r tu allan i'r ardal, gyda'r pentref yn adnabyddus am ddigwyddiadau, gwyliau ac fel lle i gyfarfod yn gymdeithasol. Mae Gorsaf Rhodfa Magwyr gyda Gwndy a agorodd yn ddiweddar wedi gwneud yr ardal yn hygyrch i bawb, gyda'i amrywiaeth o gartrefi yn denu pobl o bob oedran oherwydd y llecynnau agored a'r amrywiaeth o weithgareddau cymunedol sy'n dod â thrigolion at ei gilydd.

# Eich Nodau Cyflawni

Mae canol pentref Magwyr gyda Gwndy, unwaith y byddwch wedi'i ddarganfod, yn lle y bydd arnoch eisiau parhau i ddychwelyd iddo. Mae ganddo gynnig a phrofiad lleol sy'n canolbwyntio ar **siopau cyfleustra, gwasanaethau lleol a chyfarfod** am baned a rhywbeth i'w fwyta. Yr her, fodd bynnag, i rywun newydd i'r ardal, yw canfod Sgwâr Magwyr a'i strydoedd cyfagos. Felly, mae angen i ni wneud canol y pentref yn **fwy gweladwy a chysylltiedig** â'r gymdogaeth ehangach, fel bod mwy o bobl yn ei weld fel y dewis cyntaf ar gyfer rhywbeth "lleol". Mae cysylltu ag asedau lleol eraill yn allweddol er mwyn cryfhau cysylltiadau cymunedol a chynaliadwyedd.

Bwriad y cynllun creu lleoedd yw cyflawni hyn trwy ganolbwyntio ar sawl nod strategol:

**1**

**Pyrth**

Mae cyhoeddi canol y pentref o'r ddwy fynedfa ar y B4245 yn hanfodol er mwyn helpu ymwelwyr tro cyntaf i ganfod calon Sgwâr Magwyr. Mae'r naws cymunedol a'r lleoliad ar Wastadeddau Gwent yn rhan annatod o'i **hunaniaeth** a dylai unrhyw elfennau porth cysylltiedig fel arwyddion, tirwedd a sut mae cyffyrdd ffyrdd yn cael eu trin, adlewyrchu'r hunaniaeth hon. I'r rhai sy'n dod mewn car, mae angen gallu canfod lle parcio yn hawdd, yn enwedig wrth ddod i mewn o'r ochr orllewinol, cyn **camu allan i ganol y pentref**. Bydd mynedfa newydd i'r gymuned hefyd o **orsaf drenau'r rhodfa** yn y dyfodol, a bydd teithwyr yn gallu cerdded a beicio trwy gyfres o gysylltiadau a mannau cymunedol gwell sy'n arwain i Sgwâr Magwyr.

**2**

**Cyrraedd yn y Sgwâr**

Mae gan Sgwâr Magwyr a'i strydoedd cyfagos naws a chymeriad y mae angen eu cydnabod a'u hamlygu. Mae angen gwella **cysylltiadau i gerddwyr i'r Sgwâr** o gymdogaethau, meysydd parcio a lonydd gwledig mewn ffordd sy'n hyrwyddo cyfres o **leoedd sy'n gyfeillgar i bobl** ac sy'n cefnogi busnesau lleol trwy greu amgylchedd diogel, dymunol a chymunedol. Mae angen i'r Sgwâr allu cynnal digwyddiadau mawr blynyddol yn ogystal â gweithgareddau untro llai. Mae angen iddo hefyd fod yn groesawgar i gerddwyr, beicwyr ac ymwelwyr eraill gyda chyfleusterau beicio, seddi, pwyntiau dŵr a chyfleusterau eraill.

# Eich Nodau Cyflawni

**3**

**Treftadaeth a'r Gwastadeddau**

Mae lleoliad Magwyr gyda Gwndy ar **Wastadeddau Gwent yn adnodd a danddefnyddir** y mae angen i ganol y pentref fanteisio i'r eithaf arno o ran stori'r Gwastadeddau a chanolfan i'w harchwilio ohoni. Mae cwch Magwyr, Tŷ'r Procurator a'r Priordy, Eglwys y Santes Fair a Chors Magwyr yn rhai o'r lleoedd sydd angen **dehongliad ffisegol digidol gwell** ohonynt fel eu bod wedi'u gwreiddio yng nghanol y pentref ac yn hawdd i ymwelwyr eu canfod. Mae sut mae Magor gyda Gwndy yn cysylltu â chymunedau cyfagos eraill trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig er mwyn creu profiad integredig o Wastadeddau Gwent.

**4**

**Bywyd Cymunedol**

Mae angen cefnogi rôl a swyddogaeth Magwyr gyda Gwndy fel lle i fyw gan **amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lleol** sy'n diwallu anghenion cymuned gytbwys o ran oedran. Mae angen i ganol y pentref gadw a thyfu asedau cymunedol sy'n darparu lleoedd ar gyfer cyfarfod, cyngor ac allgymorth, iechyd a gwasanaethau llesiant, boed hynny trwy ddarparwyr cyhoeddus, preifat neu gymunedol. Mae angen i **gyfleusterau hamdden a chwaraeon** fod o fewn cyrraedd rhwydd i gerddwyr a chael cysylltiadau â **rhwydweithiau teithio llesol strategol** fel eu bod yn hygyrch i breswylwyr.



# Eich Amcanion Ategol

**Mae'r amcanion ategol yn esbonio sut y caiff gweledigaeth y cynllun – o dan arweiniad ei phrif nodau – ei gwireddu'n ymarferol:**

## Nod 1: Pyrth

**Dangos yn gliriach lle mae canol y pentref o'r B4245 a hyrwyddo'r dref fel lle o fewn Gwastadeddau Gwent.**

**Amcanion Ategol:**

1.1 Cyhoeddi canol y pentref o fewn Gwastadeddau Gwent o brif byrth gyda nodweddion gwell, defnydd o dirlunio, ac arwyddion sy'n dod â phobl i galon Sgwâr Magwyr. Integreiddio'r ddarpariaeth drafnidiaeth gyhoeddus bresennol ac arfaethedig â symudedd lleol.

1.2 Cysylltu cymdogaethau Magwyr a Gwndy â chanol y pentref a chysylltu cyfleusterau cymunedol eraill fel ei fod yn dod yn lle rhwydweithiol.

1.3 Gwerthfawrogi ysbryd cymunedol Magwyr gyda Gwndy a'i leoliad o fewn Gwastadeddau Gwent mewn ffordd sy'n dathlu ei amgylchedd, bioamrywiaeth leol, treftadaeth a digwyddiadau a gwyliau adnabyddus sy'n dod â thrigolion ac ymwelwyr at ei gilydd.

## Nod 2: Cyrraedd yn y Sgwâr

**Adeiladu ar gymeriad annibynnol Sgwâr Magwyr mewn modd sy'n gyfeillgar i bobl ac fel y bydd yn lle croesawgar i bawb.**

**Amcanion Ategol:**

2.1 Creu lle cyhoeddus sy'n gyfeillgar i bobl, sy'n annog cerdded, beicio a threulio amser, ac yn hyrwyddo strydoedd a sgwariau gwyrdd, ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. Mae angen i'r lleoedd hyn gefnogi busnesau lleol, gweithredu cymunedol ac ymdeimlad o berthyn.

2.2 Mae Sgwâr Magwyr yng nghanol y pentref a dyma ganolbwynt digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol. Dylid ei gynllunio i helpu i hwyluso hyn. Y Gofeb Ryfel yw prif nodwedd y sgwâr a dylid ei ddathlu fel hynny.

2.3 Cysylltu cymdogaethau Magwyr a Gwndy â chanol y pentref a chysylltu cyfleusterau cymunedol eraill fel ei fod yn dod yn lle rhwydweithiol.

# Eich Amcanion Ategol

## Nod 3: Treftadaeth a'r Gwastadeddau

**Dweud stori Gwastadeddau Gwent trwy ddatblygu dehongliadau, cynhyrchion a chysylltiadau yn ôl ac ymlaen i Aber Afon Hafren o ganol y pentref.**

**Amcanion Ategol:**

3.1 Cyhoeddi canol y pentref o fewn Gwastadeddau Gwent o brif byrth ac iddynt nodweddion gwell, defnydd o dirlunio, ac arwyddion sy'n dod â phobl i galon Sgwâr Magwyr. Integreiddio darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol ac arfaethedig â symudedd lleol.

3.2 Gwerthfawrogi ysbryd cymunedol Magwyr gyda Gwndy a'i leoliad o fewn Gwastadeddau Gwent mewn ffordd sy'n dathlu ei amgylchedd, bioamrywiaeth leol, treftadaeth a digwyddiadau a gwyliau adnabyddus sy'n dod â thrigolion ac ymwelwyr at ei gilydd.

3.3 Sicrhau bod Cynllun Creu Lleoedd Magwyr gyda Gwndy yn cael ei gyd-gyflawni gyda chydweithrediad cryf rhwng rhanddeiliaid cymunedol, busnesau lleol ac awdurdodau cyhoeddus. Defnyddio'r cynllun i arwain penderfyniadau ac agor cyfleoedd cyllido i gefnogi twf cynaliadwy'r dref.

## Nod 4: Bywyd Cymunedol


**Datblygu, gwasanaethau, cyfleusterau a mannau lleol sy'n cefnogi cymuned gytbwys o ran oedran.**

**Amcanion Ategol:**

4.1 Gwerthfawrogi ysbryd cymunedol Magwyr gyda Gwndy a'i leoliad o fewn Gwastadeddau Gwent mewn ffordd sy'n dathlu ei amgylchedd, bioamrywiaeth leol, treftadaeth a digwyddiadau a gwyliau adnabyddus sy'n dod â thrigolion ac ymwelwyr at ei gilydd.

4.2 Sicrhau bod cymdogaethau Magwyr a Gwndy yn cysylltu â chanol y pentref ac yn cysylltu â chyfleusterau cymunedol eraill fel ei fod yn dod yn lle wedi'i rwydweithio.

4.3 Sicrhau bod Cynllun Creu Lleoedd Magwyr gyda Gwndy yn cael ei gyd-gyflawni gyda chydweithrediad cryf rhwng rhanddeiliaid cymunedol, busnesau lleol ac awdurdodau cyhoeddus. Defnyddiwch y cynllun i arwain penderfyniadau ac agor cyfleoedd cyllido i gefnogi twf cynaliadwy'r dref.




# Eich Cynllun ar gyfer Magwyr gyda Gwndy

# Eich Cynllun ar gyfer Magwyr gyda Gwndy

**Man cychwyn yn unig yw gweledigaeth glir: mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut rydym yn troi'r weledigaeth honno'n weithredu**. Mae'n amlinellu'r cynllun gyffredinol, gan ei rannu yn ôl themâu allweddol a phrosiectau ymarferol a fydd yn cefnogi hyfywedd canol y pentref yn y dyfodol. Mae hefyd yn cydnabod bod rhai buddsoddiadau sylweddol am gael eu gwneud ym Magwyr gyda Gwndy megis gorsaf reilffordd newydd a datblygiadau teithio llesol. Mae'n bwysig nodi bod yr adran hon yn edrych ar sut y caiff y cynllun ei gyflawni: mae sydd angen iddynt gymryd rhan, sut y bydd cynnydd yn cael ei olrhain, a sut y gall y cynllun addasu dros amser. Y nod yw rhoi llwybr clir ymlaen i bawb – gan ddangos lle gallant gyfrannu, a sut y gallant beri i newid ddigwydd.

## Ymateb y Gymuned i'r Cynllun Drafft

Cyn nodi ein dull cyflawni, mae'n bwysig esbonio sut ymatebodd y gymuned i'n cynigion cychwynnol. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr ym mis Chwefror 2025 yn hanfodol er mwyn dilysu ein gweledigaeth, nodi pa brosiectau oedd â'r gefnogaeth gymunedol gryfaf, a mireinio sut y dylid eu gweithredu. Mae'r adborth hwn, gan **255** o drigolion, ymwelwyr a rhanddeiliaid, wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar flaenoriaethu a dyluniad y prosiectau a amlinellir yn yr adran hon.







Angen gwella cyfleusterau lleol

Gwell cysylltiadau ar draws y gymuned

## Cefnogaeth Gymunedol Gref

**Cyfleusterau Lleol.** Mae **84%** o'r ymatebwyr yn gweld angen i wella cyfleusterau lleol, gyda'r angen am doiledau cyhoeddus fel y brif flaenoriaeth ac awgrymwyd nifer o opsiynau gan gynnwys partneriaeth â busnes lleol yn ogystal â chyfleuster cymunedol neu gyhoeddus. Mae awgrymiadau eraill yn cynnwys gorsafoedd gwasanaethu beiciau, loceri Amazon ac Evri lleol a stondinau beiciau. Awgrymir cyfleusterau i bobl ifanc, gan gynnwys parc sglefrio ger adeilad y Ganolfan. Mae ymatebwyr yn bryderus hefyd am golli gwasanaethau gyda phryderon am y feddygfa a lleihau oriau agor yno.

**Cysylltu cymdogaethau a theithio llesol.** Mae **84%** o'r ymatebwyr yn cytuno â chael gwell cysylltiadau ar draws y gymuned gyda mwy o arwyddion rhwng cymdogaethau a Chanolfan Gymuned Magwyr gyda Gwndy, Caeau'r Fasarnen a chanol y pentref, gan gynnwys gwell goleuadau a defnydd o blannu blodau gwyllt. Mae rhai buddsoddiadau syml yn cynnwys map ffisegol a phecyn croeso i drigolion newydd yn ogystal â chlirio llwybrau troed cymunedol. Awgrymwyd gwell cysylltiadau â Whitewall ar y brif ffordd, gan fod cysylltiadau â Gwndy yn wael gyda throedffyrdd yn llawn dŵr, ac wedi gordyfu. Mae 83% yn cytuno â'r angen i wella llwybrau teithio llesol, yn benodol i fynd i'r afael â'r troedffyrdd gwael i gerddwyr allan i gyffordd Rhosied a Thwnel Hafren a sicrhau bod llwybrau teithio llesol yn integreiddio â gorsaf Rhodfa Magwyr gyda Gwndy yn y dyfodol.

# Eich Cynllun ar gyfer Magwyr gyda Gwndy




**Maes Parcio Withy Close a Chysylltiadau.** Mae **84%** o'r ymatebwyr yn cytuno bod y maes parcio hwn yn guddiedig ac yn ymddangos fel pe bai at ddefnydd y cartrefi preswyl cyfagos yn unig. Mae gwelliannau yn cynnwys cael gwared ar gynwysyddion, gwella arwyddion, darparu mapiau tref a rhywfaint o dirlunio syml sy'n eich cyfeirio ar hyd ochr y Capel Bedyddwyr.

**Bywyd Cymunedol.** Mae'r ymdeimlad cryf o gymuned ym Magwyr gyda Gwndy, er bod ymatebwyr yn cytuno â'r angen am well cyfathrebu ar fywyd a gweithgareddau cymunedol, boed yn ddigidol neu'n ffisegol. Mae'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r rhaglen gyfredol o ddigwyddiadau a gweithgareddau fel y Ffair Aeaf a gweithgareddau yn y gwahanol neuaddau a lleoliadau y mae angen i'r gymuned eu gwneud adeiladu arnynt. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r angen i wella arwyddion cyrchfan, rheoli llwybrau rhwng Gwastadeddau Gwent a chanol y pentref a gwell ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gerdded, beicio ac archwilio'r Gwastadeddau o ganol y pentref.

## Cefnogaeth gydag Awgrymiadau am Addasiadau

**Sgwâr Magwyr.** Er bod **68%** o'r ymatebwyr o blaid y cynigion i wella Sgwâr Magwyr, mae'r gymeradwyaeth hon yn canolbwyntio ar faterion penodol. Yn gyntaf, mae angen cyflawni strategaeth parcio ar gyfer y pentref ehangach i fynd i'r afael â pharcio oddi ar y stryd ac ar y stryd fel ei fod yn cefnogi parcio cyfnodau byr a chefnogi busnesau yn y Sgwâr. Trafododd rhai ymatebwyr fanylion dyluniad safle ar y cyd, sy'n awgrymu pwyslais ar ddeunydd cadwraeth, coed a phlannu a'r gwahaniaethu rhwng y droedffordd a'r gerbytffordd. Yn olaf, mae nifer o'r ymatebwyr yn awgrymu dull treialu neu raddol sy'n isel o ran cost ond sy'n profi'r dyraniad arfaethedig o le rhwng cerbydau, cerddwyr a ffryntiadau adeiladau.

**Porth Gorllewinol.** Mae'r ymatebwyr yn cytuno bod angen cyhoeddi pentref Magwyr o'r lleoliad hwn ar y B4245 (**67%**) er mwyn gwella diogelwch cerddwyr a defnyddio arwyddion a gwaith celf i amlygu Gwastadeddau Gwent fel cyrchfan. Rhai pobl yn awgrymu dull symlach sy'n cynrychioli gwerth am arian, gyda rhai sylwadau ar fanylion dylunio y gerbytffordd a'r arwyddion a'r ffurfiau o waith celf y gellid eu defnyddio. Roedd rhai awgrymiadau hefyd am "enillion cyflym" ynghylch plannu coed cymunedol a phlannu blodau gwyllt.

**Ffyrdd eraill i mewn.** Mae cytundeb cryf ar yr angen i atgyfnerthu'r gyffordd ger y Ganolfan MOT fel ffordd well o gael mynediad at ymyl y Co-op o ganol y pentref gan ddefnyddio triniaeth syml ac arwyddion ar y gerbytffordd. Mae angen ystyried parcio ar y stryd yn yr ardal hon a rhai darnau o dir ac adeiladau a danddefnyddir. Mae **66%** o'r ymatebwyr yn gweld angen gwella'r man cyrraedd ger y Co-op a thafarn y Wheatsheaf a mynd i'r afael ag adeiladau gwag, parcio ar y stryd a chyffordd symlach ger y Co-op, e.e. cyffordd T, gydag angen archwilio'r posibilrwydd o lif unffordd allan heibio'r siop bysgod a sglodion ar Fford Casnewydd.

# Eich Cynllun ar gyfer Magwyr gyda Gwndy

### Blaenoriaethau clir yn dod i'r amlwg

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis eu tair prif flaenoriaeth ar gyfer canol y pentref, canolbwyntiodd grŵp cryf o flaenoriaethau ar i) y ffordd i mewn a'r gylchfan ger y Co-op, ii) gwella'r parth cyhoeddus a'r profiad yn Sgwâr Magwyr a iii) gweithredu llwybrau a seilwaith teithio llesol ar draws y dref. Roedd ail grŵp o flaenoriaethau yn canolbwyntio ar yr angen i wella'r porth gorllewinol ar y B4245 gyda Ffordd Casnewydd a pharhau i adeiladu ar drefnu digwyddiadau cymunedol a chymdeithasol sy'n denu pobl i ganol y pentref.

### Dylanwadodd hyn ar ein Dull terfynol

**Creu cysylltiadau.** Mae'r gymuned leol yn gwerthfawrogi agosrwydd cymdogaethau at ganol y pentref ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu rhwydwaith o lwybrau sy'n hygyrch, yn ddiogel ac yn ddymunol i'w defnyddio. Mae'r cyhoeddiad diweddar am gyllid y DU ar gyfer gorsaf drenau Rhodfa Magwyr gyda Gwndy yn dod â'r angen am rwydwaith cymunedol integredig i'r amlwg a bydd o fudd i drigolion, economi canol y pentref ac ardal Gwastadeddau Gwent.

**Gweithredu fesul Cam.** Mae cefnogaeth fwyafrifol i nifer o gynigion sy'n cyhoeddi, cyfarwyddo ac ychwanegu at brofiad canol y pentref. Mae ymatebion i'r cynigion yn nodi'r angen i gymryd camau llai, cymesur gyda threialon cost isel cyn i unrhyw fuddsoddiad cyfalaf mwy ddigwydd. Mae rhywfaint o hyn yn ymwneud â gweithredu cymunedol fel plannu a thirlunio ar y B4245 a datblygu'r hunaniaeth o amgylch Gwastadeddau Gwent. Mae deall yr anghenion parcio ehangach ymysg amrywiaeth o ddefnyddwyr hefyd yn cael ei nodi, ynghyd â sut y gall y canfyddiadau hyn helpu i gefnogi mynediad a pharcio yn Sgwâr Magwyr a'r cyffiniau.

**Gwerthfawrogi Cymuned.** Mae bywyd cymunedol ym Magwyr gyda Gwndy yn cael ei werthfawrogi'n fawr gyda'r angen i ddiogelu gwasanaethau sylfaenol a hanfodol sy'n cefnogi llesiant lleol. Codwyd pryderon am wasanaeth iechyd sy'n lleihau yn y gymuned, yn ogystal â chynyddu'r sylfaen wirfoddoli i gynnwys pobl ifanc yn ogystal â thrigolion hŷn. Mae digwyddiadau a gwyliau yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n dod â phobl at ei gilydd gyda'r angen i ddatblygu gweithgareddau cymunedol mwy anffurfiol yn Sgwâr Magwyr a'r cyffiniau yn ogystal â'r Ffair Fai a'r Ffair Aeaf.

**Canol pentref i bawb.** Mae angen i ganol pentref Magwyr gyda Gwndy fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Mae angen iddo hefyd fod yn ganol bentref lle mae pobl ifanc yn teimlo'u bod yn perthyn, yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a chael rôl i'w chwarae yn ei fywyd bob dydd. Mae angen cynyddu rôl pobl ifanc o ran sut maen nhw'n ymwneud â'r gymuned ehangach o ran swyddogaethau, gweithgareddau a sut y gall atyniadau presennol ehangu eu hapêl ac agor cyfleoedd i bobl ifanc.

Caiff canfyddiadau llawn y cam ymgynghori cyhoeddus eu dadansoddi'n llawn mewn dogfen ar wahân, **Adroddiad Ymgynghori Trefynwy** y gallwch ei chael drwy e-bostio **mccregeneration@monmouthshire.gov.uk.**

# Fframwaith Blaenoriaethu

Mae'r adran ganlynol yn manylu ar y prosiectau creu lleoedd arfaethedig yn ôl thema. Mae rhai yn cael eu darlunio gyda chynlluniau a lluniadau mwy datblygedig, eraill gyda delweddau a oedd yn bod eisoes er mwyn rhoi enghreifftiau o beth allai gweithredu ffisegol fod.

## Y Broses Flaenoriaethu

Mae'r cynllun creu lleoedd hefyd wedi gweithredu proses flaenoriaethu sydd wedi helpu'r grŵp llywio lleol i ystyried beth ddylai'r pwyslais cychwynnol fod, gan dderbyn y bydd rhai prosiectau mwy yn cymryd amser i'w datblygu a'u gweithredu. Y brif nod o'r broses hon yw asesu a threfnu prosiectau a chynigion yn y cynllun creu lleoedd mewn ffordd gyson sy'n sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweledigaeth, nodau ac amcanion Magwyr gyda Gwndy, tra hefyd yn ystyried eu dichonoldeb, eu heffaith a'r gallu i'w cyflawni.

Cyn i brosiectau gael eu hasesu, fe'u diffinnwyd yn ôl eu math, fel y dangosir isod:

| Math o Brosiect | Diffiniad |
|---|---|
| Strategol a Galluogi | Astudiaethau, partneriaethau, llywodraethu, neu strategaethau marchnata |
| Gweithredol a Rhaglenni | Digwyddiadau, arwyddion, stondinau dros dro, cymorth i fusnesau, platfformau digidol |
| Seilwaith Cyfalaf | Gwellianau i'r parth cyhoeddus, adeiladau, strydlun, neu i symudedd |

Yna gweithredwyd y broses ganlynol:

**1. Effaith**

A yw'r prosiect yn cefnogi'n uniongyrchol un neu fwy o naw amcan y cynllun?

**2. Cefnogaeth y Gymuned a Rhanddeiliaid**

A yw'r prosiect wedi cael ei gefnogi wrth ymgynghori? A oes cefnogaeth gref gan y gymuned neu bartneriaid?

**3. Parodrwydd y Prosiect**

A yw'r prosiect wedi bod yn destun gwaith dichonoldeb neu ddatblygu cynllun? Oes arfarniad wedi bod o unrhyw ganiatadau statudol sy'n debygol o fod yn angenrheidiol? Oes unrhyw ystyriaethau tir neu ffisegol sydd angen eu goresgyn?

**4. Llwybr Cyllid**

A yw ffynonellau cyllido posibl wedi eu canfod, ee Cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Cronfa Dreftadaeth, grantiau cyfalaf Cyngor Sir Fynwy, buddsoddiad preifat?

**5. Costau Dangosol**

Beth yw'r amcangyfrif o'r costau?

**6. Prif Sefydliad a Rheolaeth**

Pwy fyddai'n rheoli neu arwain y prosiect, er enghraifft Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Tref Trefynwy, grwp cymunedol, y sector preifat, partneriaeth?

# Prosiectau Strategol a Galluogi

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Canol y Pentref | Meysydd Parcio'r Pentref | Cyflawni adolygiad o feysydd parcio sy'n arwain at gynllun gweithredu a fydd yn cefnogi canol y pentref ac asedau a chyfleusterau cymunedol cysylltiedig. Defnyddio'r canfyddiadau i arwain nifer o brosiectau adfywio ffisegol. | £ |
| Magwyr gyda Gwndy yng Ngwastadeddau Gwent | Toiledau Cyhoeddus | Agor trafodaethau ar ddarparu toiledau cyhoeddus, naill ai gan y sector cyhoeddus neu drwy bartneriaeth â busnes lleol neu ddewisiadau partneriaethu eraill. | ££ |

Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | £ <£100k | ££ £100k to £1m | £££ >£1m

# Prosiectau Gweithredol a Rhaglenni

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| **Gwerthfawrogi Canol y Pentref** | **Datblygu Gwefan ar gyfer Canol y Pentref** | Gallai'r Cyngor Tref ddatblygu eu gwefan i hyrwyddo a darparu'r canlynol i drigolion lleol ac ymwelwyr:<br>• Beth sydd ymlaen a rhestrau digwyddiadau, gwyliau cymunedol<br>• Rhestrau o fusnesau lleol<br>• Gweithgareddau a lleoliadau cymunedol<br>• Canolbwyntio ar fusnes lleol<br>• Cofrestru ar gyfer cylchlythyr newyddion<br>• Cysylltiadau â Gwastadeddau Gwent | £ |
| | **Ennyn Diddordeb Trigolion Lleol** | Hyrwyddo canol y pentref a lloliadau, neuaddau a gweithgareddau cymunedau cyfagos pan fo trigolion newydd yn prynu cartref ym Magwyr gyda Gwndy, yn ogystal ag i drigolion sydd wedi'u sefydlu eu hunain yno. Mae'r syniadau'n cynnwys:<br>• "Pecyn croeso" i drigolion newydd gydag, er enghraifft, map a rhestrau<br>• Rhestr gyfleus ynghylch canol y pentref ar gyfer drws yr oergell<br>• Rhestr bostio ar gyfer llais y pentref, bwletinau rheolaidd<br>• Nosweithiau cymdeithasol. Er enghraifft cwis tafarn, rhedeg, cerdded a pheint yn y pentref, digwyddiadau codi sbwriel Cadw Magwyr gyda Gwndy yn Daclus | £ |
| | **Gweithgareddau Bywiogi'r Pentref** | Parhau i ddatblygu digwyddiadau, gwyliau a gweithgareddau, yn rhai sefydledig a newydd:<br>• Prif ddigwyddiadau cymunedol megis y Ffair Aeaf<br>• Datblygu gweithgareddau newydd megis sinema a theatr gymunedol – awyr agored ac o dan do – Noson Allan<br>• Cyfarfod yn y pentref i feicio a rhedeg o Sgwâr Magwyr, yn gysylltiedig â chaffi neu dafarn. | £ |

Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | £ <£100k | ££ £100k to £1m | £££ >£1m

# Prosiectau Gweithredol a Rhaglenni

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Activity | Costau |
|---|---|---|---|
| Denu'r Gymuned i Ganol y Pentref | Llwybrau Cymdogaeth o Ardaloedd Preswyl | Dyfeisio cynllun treialu arwyddion dros dro sy'n isel o ran cost. Monitro'r defnydd ohono ar gyfer cynllun mwy parhaol. | £ |
| Magwyr gyda Gwndy yng Ngwastadeddau Gwent | Hunaniaeth, Stori a Marchnata Gwastadeddau Gwent | Creu pecyn cymorth i ennyn diddordeb busnesau a'r gymuned sy'n ymgorffori stori'r Gwastadeddau o fewn canol y pentref ac sy'n cynnwys negeseuon, lluniau a ffyrdd o gymryd rhan. Cynllun achredu lleol gan gynnwys gwybodaeth a hyfforddiant ar y Gwastadeddau. | £ |
| | Canol y Pentref a Chanolfan Wybodaeth | Gallai deunyddiau a gwybodaeth gynnwys:<br>• Map lleol – wedi'i argraffu a digidol – ar wal mewn busnes, neu ar fat bwrdd mewn caffis<br>• Gwybodaeth ar deithiau cerdded a sgyrsiau gan gynnwys teithiau tywys<br>• Croeso i gerddwyr a beicwyr<br>• Pwynt ail-lenwi poteli dŵr. | £ |

Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | **£** <£100k | **££** £100k to £1m | **£££** >£1m

# Prosiectau Seilwaith Cyfalaf

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Canol y Pentref | **Cerdded a Beicio** | Dylunio a chytuno ar leoliad ar gyfer cyfleuster beicio a cherdded sy'n cynnwys: lleoedd i adael a gorsaf gwasanaethu beiciau, gwefru e-feiciau a phwynt ail-lenwi poteli dŵr. | £ |
| | **Sgwâr Magwyr** | Cytuno gyda rhanddeiliaid lleol a'r gymuned fusnes ar dreial a dull graddol o wella'r Sgwâr, sy'n cynnwys:<br>• Defnyddio blychau planhigion a choed i ddynodi llecyn cyhoeddus estynedig.<br>• Darparu seddau cymunedol.<br>• Arwyddion ar gyfer lleoedd parcio arhosiad byr.<br>• Arwyddion a gwybodaeth gysylltiedig am y Sgwâr. | £ |
| | **Sgwâr Magwyr** | Defnyddio canlyniadau treial fel sail ar gyfer dyluniad terfynol gweithiau gwelliannau ffisegol yn y Sgwâr sy'n cynnwys: trin y gerbytffordd, llwybrau, tirlunio, arwyddion, seddau a dodrefn arall. Gweithredu'r cynllun. | ££ |
| | **Grantiau Gwella Adeiladau** | Bydd angen i grantiau gwella adeiladau gefnogi:<br>• Gwelliannau allanol a mewnol i ddod â gofod llawr masnachol gwag yn ôl i ddefnydd cymunedol.<br>• Gwelliannau allanol i flaenau siopau heb ddim gwaith mewnol.<br>• Trosi lloriau uwch gwag neu a danddefnyddir yn llety preswyl newydd.<br>• Gweithiau i alluogi defnydd dros dro mewn safleoedd gwag yng nghanol trefi a phentrefi. | ££ |

Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | **£** <£100k | **££** £100k to £1m | **£££** >£1m

# Prosiectau Seilwaith Cyfalaf

| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Canol y Pentref | Y Co-op / Tafarn y Wheatsheaf | Dylunio, datblygu a gweithredu gweithiau i'r priffyrdd a'r parth cyhoeddus, gan gynnwys tirlunio | ££ |
| | Meysydd Parcio'r Pentref | Gwella, arwyddo, tirlunio a chysylltu meysydd parcio â chanol y pentref. | £ |
| | Meysydd Parcio'r Pentref | Dylunio a gweithredu cynllun tirlunio ar gyfer meysydd parcio a chysylltiadau â chanol y pentref. | £ |
| | Meysydd Parcio'r Pentref | Angen arwyddion ar Ffordd Redwick sy'n arwain ymwelwyr i faes parcio Withy Road ac ymlaen i Sgwâr Magwyr. | £ |
| | Meysydd Parcio'r Pentref | Arwyddion i faes parcio Sycamore Terrace. | £ |
| | Meysydd Parcio'r Pentref | Arwyddion i faes parcio Sgwâr Magwyr a phwynt gwybodaeth syml, map Gwastadeddau Gwent a phwynt stopio i gerddwyr, beicwyr ac ymwelwyr sy'n crwydro'r Gwastadeddau. | £ |
| Cysylltu Asedau'r Gymuned | Creu Cwlwm Cysylltiedig o Asedau Cymunedol | Archwilio llwybrau cerddwyr o wahanol adeiladau a lleoedd a chytuno ar lwybrau strategol i ganol y pentref, dylunio gwelliannau (hygyrchedd, gwelliannau i lwybrau, goleuadau, tirlunio, arwyddion) a chytuno ar leoliadau a chost. Caffael a gweithredu. | ££ |

Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | £ <£100k | ££ £100k to £1m | £££ >£1m

# Prosiectau Seilwaith Cyfalaf


| Nod | Prosiect a Blaenoriaeth | Gweithgaredd | Costau |
|---|---|---|---|
| Denu'r Gymuned i Ganol y Pentref | Teithio Llesol | Llwybrau llwybrau cerdded a beicio sydd wedi cael eu dewis o'r mapiau rhwydweithiau llesol integredig, megis cyswllt Sycamore Terrace i'r Ganolfan Gymunedol a chyswllt Penny-farthing Lane o'r ardaloedd preswyl mwy. | £££ |
| | Teithio Llesol | Datblygu cysylliadau lleol â gorsaf reilffordd newydd Rhodfa Magwyr gyda Gwndy. | ££ |
| Pyrth | Porth o'r Dwyrain | Gwella cyffordd y B4245 a Ffordd Casnewydd gyda gwell triniaeth i'r ymylon, plannu cymunedau a gwelliannau i'r tirwedd. | £ |
| | Porth o'r Gorllewin | Cyflwyno cynllun plannu a thirlunio cymunedol yn y fynedfa orllewinol gyda gwell arwyddion i ganol y pentref a'r Sgwâr. | £ |
| | Porth o'r Dwyrain | Dylunio, datblygu a gweithredu gweithiau i'r gerbytffordd, llwybrau a phwyntiau croesi. | ££ |
| | Porth o'r Gorllewin | Dylunio, datblygu a gweithredu gweithiau i'r gerbytffordd, llwybrau a phwyntiau croesi. | ££ |
| | Porth o'r Gorllewin | Datblygu a gosod gwaith celf cymunedol yn y Porth Gorllewinol. | £ |

Blaenoriaeth Uchel · Blaenoriaeth Ganolig · Blaenoriaeth Isel

£ <£100k · ££ £100k to £1m · £££ >£1m

# Prosiectau Arfaethedig ar gyfer Lleoedd Penodol

Dyma rai o'r prosiectau arfaethedig ar gyfer lleoedd penodol ym Magwyr gyda Gwndy.



# Pyrth

## Amcan:

**Cyhoeddi canol y pentref o fewn Gwastadeddau Gwent o'r prif byrth gyda gwell nodweddion, gan ddefnyddio tirlunio, ac arwyddion sy'n dod â phobl i galon Sgwâr Magwyr. Integreiddio darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus presennol ac arfaethedig â symudedd lleol.**

---

### Porth o'r Gorllewin

- Cyhoeddi'r lle drwy well defnydd o'r dirwedd presennol, ymdrin â'r gyffordd mewn dull seiliedig ar le, newidiadau i led ac arwyneb y gerbytffordd, llwyfan dyrchafedig, hyrwyddo symudiad cerddwyr i'w dewis leoedd, a defnyddio celf gyhoeddus, arwyddion a chyhoeddiad porth mewn perthynas â'r lle.
- Mae angen i hyn wella profiad cerddwyr a beicwyr lleol a chyhoeddi'r lle a Sgwâr Magwyr i bobl sy'n mynd heibio ac ymwelwyr.

### Porth o'r Dwyrain


- Mwy o borth 'lleol' ar gyfer, dyweder, defnyddwyr y Co-op neu'r feddygfa. Porth cerddwyr allweddol i drigolion lleol, ond dylid annog traffig ceir ymwelwyr i ddefnyddio'r prif borth gorllewinol i osgoi dod â thraffig ymwelwyr drwy'r sgwâr.
- Dylai'r cynnig yma fod yn ymwneud ag arafu traffig i greu amgylchedd mwy dymunol a mwy diogel i gerddwyr, gan helpu i gysylltu'r gymuned ehangach ar draws y B4245 â chanol y pentref.



Y porth gorllewinol i ganol y pentref



Y porth dwyreiniol i ganol y pentref



Llwyfan dyrchafedig i wella'r groesfan i gerddwyr gyda gerddi glaw toreithiog



Tirlunio amddiffynnol

# Porth y B4245 i Ganol y Dref

## Amcan:

**Creu porth newydd oddi ar y B4245 i amlygu a hyrwyddo'r ffordd yn well i ganol y dref. Bydd gwell parth cyhoeddus, celf gyhoeddus ac arwyddion, yn ogystal ag arafu traffig a gwella pwyntiau croesi i gerddwyr, yn creu porth allweddol i'r dref.**

- Canolbwyntio ar gyffordd y B4245/ Ffordd Casnewydd/Ffordd Sain Ffraid sydd ar hyn o bryd heb ddim diffiniad na chymeriad i ddweud "Croeso i Magwyr".
- Bydd llwyfan dyrchafedig a chulhau'r ffordd yn helpu i arafu traffig a chreu amgylchedd nad yw gymaint o dan oruchafiaeth ceir.
- Bydd y llwyfan dyrchafedig yn creu pwyntiau croesi ar gyfer beicwyr a cherddwyr gan wneud tref fwy cysylltiedig a mwy hygyrch.
- Bydd y groesfan oleuedig yn cael ei chadw fel canolbwynt yr ardal.
- Bydd yr ardaloedd glaswelltog di-gymeriad presennol yn cael eu trawsnewid yn erddi glaw lliwgar a thoreithiog.
- Bydd arwyddion beiddgar a chlir yn croesawu pobl i Magwyr ac yn amlygu'r cyfeiriad i'r Sgwâr.
- Bydd celf gyhoeddus, a fydd yn adlewyrchu cymeriad lleol a hanes y ddau le fel Cwch Pîl Magwyr, yn cael ei ddefnyddio i gyfleu 'stori' y dref i ymwelwyr a thrigolion.
- Bydd tirlunio presennol yn cael ei gadw a bydd tirlunio cynhenid newydd yn gwella ecoleg yr ardal ac yn gwella ansawdd aer.
- Bydd rhai meinciau a chreigiau mawr yn ffurfio mannau cyfarfod neu fannau gorffwys i bobl sy'n cerdded i'r Sgwâr neu oddi yno.

Gerddi glaw | Gwella croesfannau cerddwyr | Arwyddion croeso | Celf gyhoeddus | Tirlunio deniadol | Symleiddio trefn y ffyrdd | Lleoedd i aros am seibiant



Enghreifftiau o arwyddion croeso amlwg


Celf gyhoeddus yn adlewyrchu 'stori' Magwyr gyda Gwndy


Gerddi glaw toreithiog


Llwyfan dyrchafedig i wella croesfan cerddwyr

# Porth y B4245 i Ganol y Dref




1. Pwyntiau croesi anffurfiol i gerddwyr sy'n gyson â'r lleoedd mae ar bobl eisiau mynd
2. Llwyfan dyrchafedig a cherbytffordd gul i arafu cerbydau
3. Gerddi glaw lliwgar a thoreithiog
4. Tirlunio amddiffynnol sy'n helpu i guddio'r ffiniau waliau moel yn y cefn a gwella diogelwch
5. Nodweddion celf gyhoeddus sy'n helpu i ddweud stori Magwyr gyda Gwndy
6. Cadw'r pwynt croesi goleuedig
7. Coed newydd a thirlunio yn helpu bioamrywiaeth ac ansawdd aer lleol
8. Arwydd croeso amlwg sy'n arwain pobl i'r Sgwâr
9. Cadw'r coed presennol
10. Meinciau neu greigiau fel lleoedd i aros am seibiant

# Porth y B4245 i Ganol y Dref




Golygfa tuag at arwydd croeso newydd (i ddibenion darluniadol)




Stryd yn llawn tirlunio, gerddi glaw a chelf gyhoeddus




Croesfan oleuedig a gedwir a phwyntiau croesi anffurfio yn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr

# Canol y Pentref

## Amcan:

### Creu llecyn cyhoeddus sy'n gyfeillgar i bobl, sy'n annog cerdded, beicio a threulio amser, ac sy'n hyrwyddo strydoedd a sgwariau gwyrdd, gwydn rhag yr hinsawdd. Mae angen i'r llecynnau gefnogi busnesau lleol, gweithredu cymunedol a theimlad o berthyn.

---

### Cylchfan a'r Ffordd i Mewn ger y Co-op a Thafarn y Wheatsheaf

- Creu 'lle' gyda llai o oruchafiaeth cerbydau.
- Cyffordd fwy traddodiadol yn hytrach na chylchfan – sy'n gwneud symudiad cerddwyr yn haws ac yn fwy diogel.
- Carreg gamu i brif Sgwâr Magwyr a gwella lleoliad Tafarn y Wheatsheaf.

### Meysydd Parcio'r Pentref

- Gwella, arwyddo, tirlunio a chysylltu meysydd parcio â chanol y pentref.
- Maes parcio Withy Close: mynd i'r afael â'r holl le yn y maes parcio a'r cyffiniau a chreu cyswllt at ochr Capel y Bedyddwyr.
- Angen arwyddion ar Ffordd Redwick sy'n cyfeirio ymwelwyr i'r maes parcio hwn ac ymlaen i Sgwâr Magwyr.
- Arwyddion i faes parcio Sycamore Terrace.
- Arwyddion i faes parcio Sgwâr Magwyr a phwynt gwybodaeth syml.



Gwella'r trefniant parcio o fewn y sgwâr



Darparu mwy o le i gerddwyr



Gellir addasu amgylchedd yr arwyneb a rennir ar gyfer amrywiaeth helaeth o ddigwyddiadau



Lle i gaffis a siopau ymestyn allan

# Canol y Pentref

## Amcan:

Creu llecyn cyhoeddus sy'n gyfeillgar i bobl, sy'n annog cerdded, beicio a threulio amser, ac sy'n hyrwyddo strydoedd a sgwariau gwyrdd, gwydn rhag yr hinsawdd. Mae angen i'r llecynnau gefnogi busnesau lleol, gweithredu cymunedol a theimlad o berthyn.

### Seilwaith Ymwelwyr

- Map o Wastadeddau Gwent a lle am seibiant i cerddwyr, beicwyr ac ymwelwyr sy'n crwydro'r Gwastadeddau. Cyfleusterau beicio a cherdded i gynnwys:
    - oLleoedd i adael a lle i wasanaethu beiciau
    - oGwefru e-feiciau
    - oPwynt ail-lenwi dŵr
- Pentref sy'n gyfeillgar i gŵn gyda, er enghraifft, bowlenni dŵr a bagiau baw cŵn.

### Sgwâr Magwyr

- Profiad o'r parth cyhoeddus a phrofiad, gan adeiladu ar fesurau dros dro covid.
- Ei neilltuo'n rhannol ar gyfer cerddwyr gyda lle i gerbydau fynd drwyddo.
- Darparu parcio arhosiad byr a pharcio i'r anabl.
- Creu lle ar gyfer cyfarfod a threulio amser.
- Pannu coed ar gyfer cysgod rhag yr haul, gwella'r tirwedd ac ecoleg.
- Bydd angen i'r cynlluniau sicrhau lle hyblyg ar gyfer digwyddiadau.



Tref gyfeillgar i gŵn



Gwella llwybrau cerdded a beicio i Wastadeddau Gwent



Lleoedd i eistedd a threulio amser



Lle hyblyg ar gyfer digwyddiadau

# Canol y Pentref

## Amcan:

**Creu llecyn cyhoeddus sy'n gyfeillgar i bobl, sy'n annog cerdded, beicio a threulio amser, ac sy'n hyrwyddo strydoedd a sgwariau gwyrdd, gwydn rhag yr hinsawdd. Mae angen i'r llecynnau gefnogi busnesau lleol, gweithredu cymunedol a theimlad o berthyn.**

### Grantiau Gwella Adeiladau

- Addasu Adeiladau Gwag i Ddibenion Eraill: Targedu eiddo gwag neu a danddefnyddir i'w haddasu yn fannau bywiog ar gyfer busnesau bach, canolfannau creadigol, neu at ddefnydd cymunedol neu ddarpariaeth ieuenctid, gan gadw'n gyson ag amcan y cynllun creu lleoedd i reoli eiddo gwag yng nghanol y pentref.
- Mae angen i grantiau gwella adeiladu gefnogi'r canlynol:
- Gwelliannau allanol a mewnol i ddod ag arwynebedd llawr masnachol gwag yn ôl i ddefnydd cadarnhaol.
- Gwelliannau i flaenau siop allanol heb waith mewnol.
- Trosi lloriau uchaf gwag neu a danddefnyddir yn llety preswyl newydd.
- Gwaith i alluogi gwneud defnydd dros dro neu gyfamserol o adeiladau yng nghanol trefi a phentrefi sy'n wag ar hyn o bryd.



Addasu adeiladau gwag i ddibenion eraill



Gwelliannau i flaenau siopau



Defnyddio lleoedd at ddibenion dros dro


Lleoedd i fusnesau bach

# Sgwâr Magwyr

## Amcan:


**Sgwâr Magwyr yw calon y dref a'r canolbwynt ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol ac felly dylai gael ei ddylunio i helpu hwyluso hyn. Y Gofeb Ryfel yw nodwedd amlycaf y sgwâr a dylai felly gael ei dathlu'n unol â hynny.**

- Bydd dull arwyneb a rennir yn cael ei fabwysiadu o fewn y sgwâr, gyda deunyddiau o ansawdd uchel sy'n helpu i ddiffinio'r gerbytffordd.
- Bydd yr arwyneb hon a rennir yn sicrhau y gellir defnyddio'r sgwâr ar gyfer llu o ddigwyddiadau a gweithgareddau.
- Bydd y Gofeb Ryfel yn cael lle amlwg yng nghanol y dyluniad, gyda'r deunyddiau palmant yn arwain tuag ati.
- Cyfres o lecynnau o fewn y sgwâr lle gall pobl eistedd, ymlacio a chymdeithasu.
- Bydd coed mawr ac amlwg yn helpu i feddalu y sgwâr a chysgodi'r Gofeb Ryfel.
- Caiff yr ardaloedd parcio presennol a'r trefniadau mynediad cadw, yn ogystal â'r 2 fae parcio i'r anabl.
- Cedwir lle y tu allan i'r busnesau ar gyfer ymestyn allan a gosod seddi.
- Bydd meinciau a bolardiau yn rhai symudol er mwyn helpu i hwyluso marchnadoedd a gwyliau.

Cofeb ryfel | Parch ac urddas | Deunyddiau o safon uchel | Arwyneb a rennir | Addasadwy a hyblyg | Cedwir lleoedd parcio a mynediad | Lle i dreulio amser



Y gofeb yw canolbwynt y lle



Amgylchedd arwyneb a rennir




Lleoedd bywiog i siopau ymestyn allan



Pobl a cheir yn rhannu'r lle

# Sgwâr Magwyr




1. Saif y gofeb ryfel yng nghanol y sgwâr
2. Deunydd palmant o ansawdd uchel wedi ei drefnu'n batrwm sgwâr cryf i helpu i uno'r lle
3. Dwy goeden fawr yn cysgodi'r gofeb ryfel
4. Meinciau yn galluogi pobl i eistedd, gorffwyso a myfyrio
5. Gellir addasu amgylchedd yr arwyneb a rennir ar gyfer amrywiaeth helaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau
6. Lleoedd i dreulio amser, i siopau ymestyn allan ac ar gyfer seddau i gaffis
7. Caiff y gerbytffordd ei diffinio gan newid mewn deunyddiau
8. Bydd yr un faint o leoedd i barcio ag sydd ar hyn o bryd
9. Lleoedd parcio i'r anabl
10. Cedwir seddau'r dafarn

## Sgwâr Magwyr




Golygfa ar draws y Sgwâr tuag at y swyddfa bost




Golygfa o’r awyr o’r gofeb ryfel yng nghanol y Sgwâr




Y Sgwâr i ddod yn amgylchedd arwyneb a rennir gan ddefnyddio deunyddiau i ddiffinio’r gerbytffordd

# Denu'r Gymuned i Ganol y Pentref

## Amcan:

Cysylltu cymdogaethau Magwyr gyda Gwndy â chanol y pentref a dod â chyfleusterau cymunedol at ei gilydd fel y daw yn lle wedi'i rwydweithio.

### Llwybrau Cymdogaeth o Ardaloedd Preswyl

Datblygu cyfres o lwybrau wedi'u cynllunio gan y gymuned i hyrwyddo hygyrchedd a gwella cysylltiadau â chyfleusterau cymunedol a chanol y pentref.

- Archwilio arwyddion presennol a meysydd i'w gwella.
- Gweithio gyda'r cyngor sir ar ddull o dan arweiniad y gymuned o ddatblygu arwyddion sy'n treialu syniadau cost isel.
- Datblygu dyluniadau, cytuno arnynt a'u gweithredu.
- Eu gosod gan y gymuned.
- Hyrwyddo'r llwybrau.

### Teithio Llesol

Cysylltiadau strategol a lleol sy'n cysylltu Magwyr gyda Gwndy â Cil-y-coed, Rhosied a Chyffordd Twnel Hafren.

- Datblygu llwybrau cerdded a beicio lleol sydd wedi'u nodi o fewn y mapiau rhwydweithiau integredig llesol megis cyswllt Sycamore Terrace â'r Ganolfan Gymunedol a chysylltiad Penny-farthing Lane o'r ardaloedd preswyl mwy.
- Datblygu cysylltiadau i orsaf reilffordd newydd Rhodfa Magwyr gyda Gwndy yn y dyfodol.



Arwyddion at gyfleusterau lleol


Gwella cysylltiadau â Gorsaf Rhodfa Magwyr gyda Gwndy


Gwella'r cyswllt â'r Ganolfan Gymunedol


Gwell llwybrau beicio a cherdded

# Cysylltu Asedau'r Gymuned

## Amcan:

### Gwerthfawrogi ysbryd cymunedol Magwyr gyda Gwndy a'i leoliad o fewn Gwastadeddau Gwent gan ddathlu ei amgylchedd a bioamrywiaeth lleol, ei dreftadaeth, a'i ddigwyddiadau a gwyliau adnabyddus sy'n dod â thrigolion ac ymwelwyr at ei gilydd.

---

### Creu Cwlwm Cysylltiedig o Asedau Cymunedol

Gwella cysylltiadau rhwng nifer o asedau cymunedol sydd ar gyrion canol y pentref, gan ddarparu "pont" rhwng Magwyr a Gwndy sy'n sicrhau bod cerdded a beicio yn hygyrch, yn ddiogel ac yn apelgar i bawb. Bydd cysylltiadau o fudd i hyfywedd a cynaliadwyedd adeiladau a safleoedd.

Y rhain I gynnwys:

- Canolfan Gymunedol Magwyr gyda Gwndy.
- Caeau Sycamore, MUGA, rhandiroedd.
- Perllan gymunedol.
- Meysydd a lleoedd chwaraeon a hamdden
- Ysgolion cynradd. Lleoliadau ac adeiladau cymunedol eraill.

### Treftadaeth Leol

Datblygu cynllun treftadaeth lleol gan weithio gyda Gwastadeddau Gwent, canfod lle gellir ychwanegu gwerth a phenderfynu ar ddull amlgyfrwng sy'n canolbwyntio ar y pentref ond sy'n ymestyn allan i'r Gwastadeddau.

Y cynnwys i gynnwys:

- Cynllun dehongli.
- Cynllun gweithgareddau.
- Datblygu'r dyluniad – amlgyfrwng.
- Digidol – sain.
- Paneli dehongli.
- Rôl celf gymunedol.
- Digwyddiadau a gwyliau.
- Rôl busnesau canol y pentref.
- Dylunio, datblygu a gweithredu ar draws nifer gyfryngau.



Gwella cysylltiadau rhwng asedau'r gymuned



Gwella amlygrwydd asedau treftadaeth lleol …




… ffyrdd creadigol o ddehongli a chysylltu …



… trwy gyfryngau ffisegol a digidol

# Magwyr gyda Gwndy yng Ngwasteddau Gwent

## Amcan:

Gwerthfawrogi ysbryd cymunedol Magwyr gyda Gwndy a'i leoliad o fewn Gwastadeddau Gwent gan ddathlu ei amgylchedd a bioamrywiaeth lleol, ei dreftadaeth, a'i ddigwyddiadau a gwyliau adnabyddus sy'n dod â thrigolion ac ymwelwyr at ei gilydd.

### Arwyddion Cyrchfan yng Ngwastadeddau Gwent

Arwyddion hysbysu ymlaen llaw a chadarnhau ar gyfer Gwastadeddau Gwent fel cyrchfan yng Nglannau Hafren sy'n dathlu'r ymdeimlad o le ac yn cyfeirio ymwelwyr i ganol y pentref fel lle i grwydro'r Gwastadeddau ohono a threulio amser ynddynt.

Gan weithio gyda Phartneriaeth Gwastadeddau Gwent, dyfeisio strategaeth a chynllun arwyddion sy'n ystyried arwyddion hysbysu ymlaen llaw a chyfeirio yng nghanol y pentref a dehongli a gwybodaeth ehangach am y Gwastadeddau.

### Hunaniaeth, Stori a Marchnata Gwastadeddau Gwent

Gweithio gyda sefydliadau partner Gwastadeddau Gwent ar sut y gall stori'r Gwastadeddau fod yn rhan o ganol y pentref a sut y gall busnesau a sefydliadau lleol elwa ar marchnata a datblygu cynnyrch ar y cyd ac ar seilwaith ymwelwyr sy'n ennyn diddordeb ac ymweliadau.

Creu pecyn cymorth cydweithio â busnesau a chymunedau i ymgorffori stori'r Gwastadeddau yng nghanol y pentref sy'n rhoi negeseuon, lluniau a ffyrdd o gymryd rhan. Cynllun achredu lleol gan gynnwys gwybodaeth a hyfforddiant ar y Gwastadeddau.

### Canolfan y Pentref a'r Canolbwynt Gwybodaeth

Gwybodaeth Archwilio ffyrdd o hwyluso Sgwâr Magwyr i ddod yn ganolbwynt gwybodaeth ar gyfer Gwastadeddau Gwent drwy bartneriaethau busnes lleol, er enghraifft caffis lleol yn cynnal map o'r ardal, teithiau cerdded a llwybrau, gwylio bywyd gwyllt, taflenni "cwrdd yma am daith dywysedig".

Gallai deunydd a gwybodaeth gynnwys:

- Map lleol – printiedig a digidol – ar wal mewn busnes neu ar fat bwrdd mewn caffis.
- Gwybodaeth am deithiau cerdded a sgyrsiau – teithiau cerdded tywysedig.
- Croeso i gerddwyr a beicwyr.
- Pwynt ail-lenwi poteli dŵr.



Cysylltu'r Gwastadeddau yn well â llwybrau cerdded a beicio ehangach i mewn i ganol y dref a'r ardal ehangach



Helpu dweud stori Gwastadeddau Gwent

# Magwyr gyda Gwndy yng Ngwastadeddau Gwent

## Amcan:

**Gwerthfawrogi ysbryd cymunedol Magwyr gyda Gwndy a'i leoliad o fewn Gwastadeddau Gwent gan ddathlu ei amgylchedd a bioamrywiaeth lleol, ei dreftadaeth, a'i ddigwyddiadau a gwyliau adnabyddus sy'n dod â thrigolion ac ymwelwyr at ei gilydd.**

### Archwiliwch Datblygu Cynnyrch Busnes Newydd

Treialu syniadau a mentrau sy'n ehangu gweithgarwch busnes, er enghraifft, cynllun llogi beiciau Gwastadeddau Gwent a allai fod ar waith ledled Glannau Hafren gyda lleoedd i'w codi a'u gadael. Datblygu gorsaf wefru e-feiciau yn Sgwâr Magwyr, yn agos at gaffis. Manteisio ar Lwybr Arfordir Cymru, Llwybr Beicio Cenedlaethol, Cors Magwyr.

### Toiledau Cyhoeddus

Agor trafodaethau ar ddarparu toiledau cyhoeddus naill ai gan y sector cyhoeddus neu drwy bartneriaeth fusnes leol.



Gwella mapiau yn y dref i amlygu cysylltiadau â'r Gwastadeddau



Cyfle i logi beiciau a gwefru e-feiciau


Cysylltu â Chors Magwyr



Darpariaeth well o doiledau cyhoeddus

# Gwerthfawrogi Canol y Pentref

## Amcan:

Sicrhau bod Cynllun Creu Lleoedd Magwyr gyda Gwndy yn cael ei gydgyflawni trwy gydweithio cryf rhwng rhanddeiliaid cymunedol, busnesau lleol, ac awdurdodau cyhoeddus. Defnyddio'r cynllun i arwain penderfyniadau ac agor cyfleoedd cyllid ar gyfer twf cynaliadwy'r dref.

### Datblygu Gwefan ar gyfer Canol y Pentref

Gallai'r cyngor tref ddatblygu eu gwefan i hysbysu'r trigolion lleol ac ymwelwyr o'r canlynol:

- Beth sydd ymlaen a rhestrau o ddigwyddiadau, gwyliau.
- Rhestrau busnesau lleol.
- Gweithgareddau a lleoliadau cymunedol.
- Sylw penodol ar fusnes lleol.
- Cofrestru ar gyfer cylchlythyr

### Ennyn Diddordeb Trigolion Lleol

Hyrwyddo canol y pentref a lleoliadau, neuaddau a gweithgareddau cymunedol cyfagos pan fydd preswylwyr newydd yn prynu cartref ym Magwyr gyda Gwndy, yn ogystal â thrigolion sefydledig.

Syniadau i'w cynnwys:

- "Pecyn croeso" i drigolion newydd gan gynnwys er enghraifft, map, rhestrau a cherdyn teyrngarwch.
- Rhestr canol pentref defnyddiol i'w roi ar ddrws yr oergell.
- Rhestr bostio ar gyfer llais y pentref, bwletinau rheolaidd.
- Nosweithiau cymdeithasol. Er enghraifft, cwisiau tafarndai, gweithgareddau rhedeg pentrefol, taith gerdded a pheint, digwyddiadau codi sbwriel Cadw Magwyr gyda  Gwndy yn daclus.

### Gweithgareddau Bywiogi'r Pentref

- Parhau i gynyddu digwyddiadau, gwyliau a gweithgareddau – yn rhai sefydledig a newydd.
- Prif ddigwyddiadau cymunedol fel y Ffair Aeaf.
- Datblygu gweithgareddau newydd fel sinema neu theatr gymunedol - awyr agored neu dan do - Noson Allan.
- Cyfarfodydd  beicio a rhedeg pentrefol o Sgwâr Magwyr, a allai fod yn gysylltiedig â chaffi neu dafarn.




Hyrwyddo digwyddiadau'n well i bobl leol




Hyrwyddo lleoliadau'r pentref a'r gymdogaeth

# Rhagweld Llwyddiant i Ganol ein Tref

# Diffinio Llwyddiant

Wrth alluogi a chyflawni newid mewn lle fel Magwyr gyda Gwndy, mae'n hanfodol deall sut mae diffinio llwyddiant. Mae angen i chi fod yn glir am y canlyniadau rydych chi'n gweithio tuag atynt a'r broses y mae angen i chi ei dilyn er mwyn cyrraedd yno.


**Pam fod hyn yn bwysig**

- Cyfeiriad clir: Mae dangos llwyddiant yn rhoi cymhelliant ac yn helpu pawb i gydweithio tuag at ddiben cyffredin
- Meithrin ymddiriedaeth: Mae'n cryfhau'r berthynas rhwng partneriaid a'r gymuned
- Atebolrwydd: Mae'n dangos i sefydliadau cyllido eich bod yn cyflawni eich allbynnau a'ch canlyniadau, gan ddangos enillion ar eu buddsoddiad
- Olrhain cynnydd: Mae'n darparu fframwaith i fonitro pa mor dda mae prosiectau'n gweithio.

**Y gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau?**

- **Allbynnau** yw canlyniadau uniongyrchol eich gweithgareddau megis nifer y meinciau newydd a osodwyd, metrau o lwybrau troed wedi'u gwella
- **Canlyniadau** yw'r newidiadau mwy hirdymor y mae'r gweithgareddau hyn yn eu creu, megis mwy o ymwelwyr, gwell llesiant cymunedol neu ganol tref mwy bywiog

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys rhai enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau y gellir eu hystyried wrth gasglu ac asesu effaith prosiectau a gweithgareddau.



# Diffinio Llwyddiant

## Pyrth Llwyddiannus

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Dangos yn gliriach lle mae canol y pentref o'r B4245 a hyrwyddo'r dref fel lle o fewn Gwastadeddau Gwent.

#### Allbynnau

- Cyfanswm arwynebedd tir priffyrdd sydd wedi'i wella
- Cyfanswm arwynebedd gwyrdd
- Nifer y symudiadau cerdded a beicio lleol
- Cyfrif ansawdd aer
- Llif cerddwyr o ardaloedd preswyl a llwybrau troed cyfagos

#### Canlyniadau

- Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i'r dref
- Mwy o symudedd o gymdogaethau i ganol y pentref
- Gwell profiad i ymwelwyr a defnyddwyr o ran ansawdd amgylcheddol

## Cyrraedd Llwyddiannus yn y Sgwâr

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Adeiladu ar gymeriad annibynnol Sgwâr Magwyr mewn modd sy'n gyfeillgar i  bobl ac fel y bydd yn lle croesawgar i bawb.

#### Allbynnau

- Cyfanswm arwynebedd parth cyhoeddus, mannau gwyrdd ac ymylon ffyrdd sydd wedi'u gwella
- Nifer y cynlluniau draenio cynaliadwy
- Nifer y digwyddiadau, gwyliau, marchnadoedd a gweithgareddau yng nghanol y pentref
- Nifer y defnyddwyr a'r ymwelwyr ledled y cyfan o ganol y pentref
- Amrywiaeth o swyddogaethau a gweithgareddau yng nghanol y pentref
- Nifer yr adeiladau sydd wedi'u gwella
- Gwariant, gweithgarwch, amser a dreulir a boddhad

#### Canlyniadau

- Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i'r dref
- Mwy o symudedd o gymdogaethau i ganol y pentref
- Gwell profiad i ymwelwyr a defnyddwyr o ran ansawdd amgylcheddol

# Diffinio Llwyddiant

## Cyflwyno Treftadaeth a'r Gwastadeddau'n Llwyddiannus

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Dweud stori Gwastadeddau Gwent trwy ddatblygu dehongliadau, cynhyrchion a chysylltiadau yn ôl ac ymlaen i Aber Afon Hafren o ganol y pentref.

#### Allbynnau

- Nifer y profiadau integredig o dreftadaeth a chefn gwlad, llwybrau, digwyddiadau a chynhyrchion cysylltiedig
- Nifer y busnesau lleol sy'n elwa o weithgarwch ymwelwyr
- Gwariant, gweithgaredd, amser a dreulir a boddhad
- Nifer y defnyddwyr a'r ymwelwyr ledled holl ganol y pentref

#### Canlyniadau

- Mwy o ymwybyddiaeth o dreftadaeth y dref
- Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i'r dref
- Mae'r dref a'r economi wledig yn amrywiol, yn wydn ac yn ffyniannus
- Gwella llesiant y gymuned ac ymwelwyr trwy fwy o ymwneud â byd natur a'r cefn gwlad cyfagos

## Bywyd Cymunedol Llwyddiannus

### Yr hyn sydd arnom eisiau ei gyflawni

Datblygu a hyrwyddo gwasanaethau, cyfleusterau a mannau lleol sy'n cefnogi cymuned gytbwys o ran oedran.


#### Allbynnau

- Nifer y gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a gefnogir
- Nifer y grwpiau a sefydliadau cymunedol a gefnogir
- Nifer y digwyddiadau, gwyliau, marchnadoedd a gweithgareddau yng nghanol y pentref
- Nifer y prosiectau, mentrau a chynlluniau ar y cyd a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd

#### Canlyniadau

- Mwy o gydweithio a chydweithredu rhwng grwpiau a sefydliadau cymunedol
- Gweithio cynaliadwy a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar fywyd a llesiant cymunedol
- Mwy o ymdeimlad o groeso a chydlyniant cymunedol

# Dull Cyflawni



# Ffyrdd o Weithio

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Magwyr gyda Gwndy

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r darn allweddol o ddeddfwriaeth Cymru sy'n arwain y ffordd rydym yn cynllunio ar gyfer dyfodol Magwyr gyda Gwndy. Mae'n ei gwneud yn ofynnol inni feddwl ynghylch datblygu cynaliadwy – sut y byddwn yn diwallu anghenion heddiw heb niweidio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

### Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf hon yn nodi saith nod llesiant cenedlaethol sy'n arwain ein cynllunio ar gyfer Magwyr gyda Gwndy. Rhaid i'n cynllun creu lleoedd gyfrannu at gyflawni'r nodau hyn wrth ymdrin ag anghenion a chyfleoedd penodol y dref.




### Y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum ffordd o weithio yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy:

- **Meddwl yn hirdymor** Cydbwyso'r hyn sydd ei angen ar Magwyr gyda Gwndy nawr â'r hyn y bydd ei angen yn y dyfodol. Mae ein cynigion yn edrych y tu hwnt i atebion cyflym er mwyn creu newid cadarnhaol parhaol i ganol y dref a fydd o fudd i genedlaethau i ddod.
- **Integreiddio** Dod ag ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol at ei gilydd. I Magwyr gyda Gwndy, mae hyn yn golygu cysylltu ein treftadaeth hanesyddol â nodau cynaliadwyedd modern, cysylltu canol y dref â'r cymdogaethau cyfagos, a sicrhau bod datblygiadau newydd yn ategu asedau presennol wrth ddiwallu anghenion pob grŵp oedran.
- **Cynnwys** Gwrando ar drigolion, busnesau, ymwelwyr a rhanddeiliaid. Mae'r cynllun creu lleoedd hwn wedi'i lunio wrth ymgynghori helaeth â chymuned Magwyr gyda Gwndy, gan gynnwys ymdrechion ymroddedig i ddeall beth sydd ar bobl ifanc ei eisiau o ganol eu tref a beth fydd yn eu hannog i aros neu ddychwelyd i Magwyr gyda Gwndy wrth iddynt adeiladu eu gyrfaoedd a'u teuluoedd.
- **Cydweithio** Gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau. Mae adfywio Magwyr gyda Gwndy yn gofyn am gydweithrediad rhwng y cyngor sir, cyngor tref, busnesau lleol, grwpiau cymunedol a thrigolion, ysgolion, ac yn hollbwysig, pobl ifanc a fydd yn etifeddu'r dref a llunio ei dyfodol.
- **Atal** Buddsoddi mewn atebion sy'n atal problemau cyn iddynt ddechrau. Yn hytrach na dim ond ymateb i heriau canol trefi fel eiddo gwag neu gysylltedd gwael, rydym yn creu strategaethau rhagweithiol i gryfhau gwydnwch ac apêl Magwyr gyda Gwndy.

Yn ystod y broses creu lleoedd aethom ati i weithredu'r pum egwyddor allweddol a bydd yn cynnal y dull hwn pan gaff prosiectau eu datblygu a'u gweithredu.

# Ffyrdd o Weithio

### Datblygu a Chyflawni


Mae cyflawni'r cynllun creu lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae sefydliadau strategol a lleol yn cyfuno'u hamcanion unigol yn set o gynigion sydd o fudd i'w gilydd ac, yn hollbwysig, o fudd i ganol pentref Magwyr gyda Gwndy a'i chymdogaethau cyfagos. Mae ar y cyfleoedd a ddisgrifir yn y cynllun hwn angen cymysgedd gwahanol o bartneriaid, adnoddau ac amser os ydynt am gael eu cyflawni.

Mae angen i'r Grŵp Cyflawni'r Cynllun Creu Lleoedd, o dan gadeiryddiaeth Cyngor Tref Magwyr gyda Gwndy, adeiladu ar sylfeini'r grŵp llywio'r cynllun, gydag adolygiad o'i aelodaeth ac ystyried y set sgiliau sydd ei hangen i ddatblygu pob prosiect. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn cadw ei safle fel corff arweiniol rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, ac fel cyfrwng ar gyfer ariannu, monitro ac adrodd.

Mae'r ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer cyflawni prosiectau creu lleoedd yn cynnwys:

- Deall cryfderau unigol gan gynnwys gwybodaeth, arbenigedd ac asedau ffisegol a sut y gellir cydgyfeirio'r rhain.
- Cyfathrebu a chydlynu ar lefel strategol a gweithredol.
- Gweithio i god dylunio cyffredin sy'n sicrhau cysondeb yn yr amgylchedd adeiledig a mannau cyhoeddus a bodloni targedau addas o ran newid hinsawdd a chynaliadwyedd.
- Cysylltu trigolion lleol â llwybrau amrywiol i ddysgu, iechyd a llesiant, gweithgarwch corfforol a chyflogaeth.
- Cyflwyno hunaniaeth a stori unedig ar gyfer lle fel Magwyr gyda Gwndy, tra'n parchu hunaniaeth pob sefydliad unigol.

Mae angen i'r grŵp cyflawni ystyried hefyd sut y bydd yn cyfathrebu â sefydliadau rhanddeiliaid a'r gymuned leol, gan gynnal y cyfathrebu hwn fel bod pobl yn gwybod pa bryd a ble mae cynnydd yn cael ei wneud.





Rhif Prosiect: 11372

Cyhoeddwyd: 27.10.25

Fersiwn: V6

Roberts Limbrick